

# RHYBUDD O GYFARFOD



*Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*

*Emyr Williams*

*Prif Weithredwr*

*Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*

*Penrhyndeudraeth*

*Gwynedd LL48 6LF*

*Ffôn: (01766) 770274*

*E.bost: [parc@eryri.llyw.cymru](mailto:parc@eryri.llyw.cymru)*

**Cyfarfod:** Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

**Dyddiad:** Dydd Mercher 24 Ebrill 2024

**Amser:** 10.00 y.b.

**Man Cyfarfod:** Ystafell yr Oakeley, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog a thrwy Zoom

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig***

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd***

*Y Cyngorydd: Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes,  
June Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts,  
John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy***

*Y Cyngorydd: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Llywodraeth Cymru***

*Mr. Brian Angell, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones,  
Ms. Naomi Luhde – Thompson, Ms. Delyth Lloyd, Swydd Wag.*

# R H A G L E N

## 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd

### 2. Diweddariad Corfforaethol

Derbyn diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr.

### 3. Hawl i'r Cyhoedd Holi

Mae'r Awdurdod wedi clustnodi hyd at 20 munud ar ddechrau ei gyfarfod i roi cyfle i aelodau o'r cyhoedd ofyn cwestiynau penodol sy'n ymwneud â gwaith yr Awdurdod (ac eithrio ceisiadau cynllunio) sy'n berthnasol i ddyletswyddau a phwrpasau'r Parc.

Rhaid cyflwyno'r cwestiynau'n ysgrifenedig (trwy'r post neu e-bost) i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Chorfforaethol o leiaf 7 niwrnod cyn y cyfarfod.

### 4. Datgan Diddordeb

Cael unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem fusnes.

### 5. Cofnodion

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 7fed Chwefror a 6ed Mawrth 2024 fel rhai cywir. (Copïau yma)

### 6. Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion

### 7. Taflen Gweithredu

Cyflwyno'r Daflen Weithredu er gwybodaeth a phenderfyniad. (Copi yma)

### 8. Rhaglen Waith Corfforaethol 2024-25 (Drafft)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)

### 9. Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)

### 10. Datganiad Sefyllfa Hamdden Awyr Agored 2024-2029

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Mynediad a Lles. (Copi yma)

### 11. Cynadleddau a Seminarau

#### (1) Cynhadledd Awdurdodau y Parciau Cenedlaethol 2024 : 75 mlynedd o Dirweddau i Bawb

Gwesty Crowne Plaza, Newcastle : Dydd Mawrth 24 i Ddydd Iau 26 Medi 2024.

(Mae'n arferol anfon 4 o gynrychiolwyr (gan gynnwys y Cadeirydd) i'r Gynhadledd).

#### (2) Seminar Aelodau Parciau Cenedlaethol Cymru 2024

Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cynnal Seminar Aelodau

Parciau Cenedlaethol Cymru ar 6 a 7 Tachwedd 2024 yng Ngwesty'r Giltar,

Dinbych-y-Pysgod. Bydd rhagor o fanylion ar gael maes o law.

### 12. Adroddiadau Gweithgor yr Aelodau

Cyflwyno adroddiadau'r Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 24 Ionawr a 6 Mawrth 2024. (Copïau yma)

13. **Calendr o Gyfarfodydd 2024/25**  
Cyflwyno Amserlen o Gyfarfodydd ar gyfer y cyfnod 2024/25. (Copi yma)
14. **Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**  
Cael adroddiadau llafar gan Aelodau am unrhyw gyfarfodydd sefydliadau eraill y buont ynddynt yn ddiweddar fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.
15. **Cyflwyno'r cofnodion a ganlyn er gwybodaeth.**  
Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2023. (Copi yma)
16. **Strwythur Tîm Rheoli Interim - Addasiad i Opsiwn C**  
**Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972: Eithriad rhag datgelu dogfennau**  
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol. (Copi yma)

## **RHAN II**

17. **Strwythur Tîm Rheoli Interim - Addasiad i Opsiwn C**  
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol. (Copi yma)

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI  
DYDD MERCHER 7 CHWEFROR 2024**

**PRESENNOL:****Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd**

Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Williams;

**Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Y Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**

Brian Angell, Tracey Evans, Sarah Hattle, Tim Jones, Naomi Luhde-Thompson, Delyth Lloyd;

**Swyddogion**

Emyr Williams, G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, Geraint Evans, Anwen Gaffey.

**Ymddiheuriad**

Y Cynghorydd Dilwyn Owain Roberts.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei weddarllu ar ôl ethol y Cadeirydd ac y byddai hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

**1. Cadeirydd**

Amlinellodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y weithdrefn ar gyfer ethol Cadeirydd i'r Awdurdod a gafodd ei haildrefnu o ganlyniad i broblemau technegol ar 6 Rhagfyr 2023. Dywedodd, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, fod yr enwebiadau yn cynnig dau Aelod i fod yn Gadeirydd, Mr. Tim Jones a'r Cynghorydd Edgar Owen, ac fe'u gwahoddwyd i annerch y cyfarfod.

Derbyniodd Mr. Tim Jones a'r Cynghorydd Edgar Owen y gwahoddiad i annerch y cyfarfod a rhoddodd y ddau grynodedb i'r Aelodau o'u cefndir a'u profiad.

**Etholwyd Mr. Tim Jones yn Gadeirydd yr Awdurdod.**

Yn codi wedi hynny, mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai Is-Gadeirydd yn cael ei ethol yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

**2. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

- (1) Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch i'r Aelodau am eu cefnogaeth a chroesawodd y Cynghorydd Einir Wyn Williams i'w chyfarfod Awdurdod cyntaf yn dilyn ei phenodiad diweddar gan Gyngor Gwynedd. Mynegodd y Cadeirydd ddymuniadau gorau hefyd i'r Cynghorydd John Pugh Roberts yn dilyn ei lawdriniaeth ddiweddar.
- (2) Dywedodd y Cadeirydd fod Tracey Evans yn mynychu ei chyfarfod Awdurdod olaf fel Aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru, ac ar ran yr Aelodau a'r swyddogion, mynegodd ei werthfawrogiad a'i ddiolch am ei chyfraniad gwerthfawr a'i gwasanaeth yn ystod ei wyth mlynedd fel Aelod. Yn codi wedi hynny, dywedodd y Prif Weithredwr y gallai proses benodi Llywodraeth Cymru gael ei gohirio oherwydd newidiadau posibl i rolau o fewn y sefydliad.

- (3) Adroddodd y Cadeirydd ar gyfarfodydd yr oedd wedi'u mynychu ers i'r Awdurdod gyfarfod yn flaenorol:-
  - 27 Tachwedd 2023 - cyfarfod â Julie James AS. Dywedodd y Cadeirydd, er bod y Gweinidog yn llwyr gefnogi gwaith Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, fod Llywodraeth Cymru yn profi eu blwyddyn anoddaf ers sefydlu'r Senedd.
  - 23 Ionawr 2024 - cynhaliwyd cyfarfod o'r holl staff am y tro cyntaf ers y pandemig gyda chyflwyniadau gan rai Penaethiaid Gwasanaeth ar eu meysydd cyfrifoldeb penodol.
  - 26 Ionawr 2024 - cyfarfod o Gyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru i drafod ei ofynion cyllideb.
- (4) Dywedodd y Cadeirydd fod yr Ystafell Gynadledda yn y Brif Swyddfa wedi'i hadnewyddu ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol yr Awdurdod. Roedd swyddogion wrthi'n treialu'r cyfleusterau i fynd i'r afael ag unrhyw anawsterau technegol posibl.
- (5) Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau a oedd wedi mynychu'r ddwy sesiwn hyfforddi a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru ar:
  - Lywodraethu (23 Ionawr 2024)
  - Tirweddau i Bawb (Amrywiaeth a Chynhwysiant) (2 Chwefror 2024)Anogodd y Cadeirydd yr Aelodau i fynychu'r un sesiwn arall ar:
  - Argyfyngau Natur a Hinsawdd (16 Chwefror 2024).
- (6) Yn olaf, ar 1 Chwefror, roedd y Prif Weithredwr wedi cyflwyno llythyr ymddiswyddiad i'r Awdurdod ar ôl mwy na 37 mlynedd o wasanaeth gyda Pharc Cenedlaethol Eryri. Estynnodd y Cadeirydd, ar ran yr Aelodau, ei werthfawrogiad a'i ddiolch i'r Prif Weithredwr am ei waith a dymunodd ymddeoliad hir a hapus i'r Prif Weithredwr a'i deulu pan fydd yn gadael yr Awdurdod yn yr haf. Nododd yr aelodau fod y broses o ddod o hyd i olynydd yn mynd rhagddi bellach, a bod cyfarfod arbennig o'r Awdurdod yn cael ei gynnwyl yn fuan i drafod y drefn ar gyfer penodi Prif Weithredwr newydd.

### 3. **Diweddariad Corfforaethol**

- (1) Llongyfarchodd y Prif Weithredwr y Cadeirydd ar ei benodiad.
- (2) Bydd y Prif Weithredwr yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Gweithgor Aelodau i roi dealltwriaeth i'r Aelodau o sefyllfa ariannol yr Awdurdod dros y tair blynedd nesaf. Mae'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli eisoes wedi trafod y mater gyda'r Uwch Aelodau.
- (3) Dywedodd y Prif Weithredwr fod y cyfarfod diweddar o'r holl staff ym Mhlas Tan y Bwlch wedi bod yn llwyddiant, a'r bwriad oedd galw cyfarfodydd o'r fath yn amlach yn y dyfodol.
- (4) Hefyd, mae staff wedi cynnal cyfarfod hybrid yn yr ystafell gynadledda wedi'i huwchraddio a oedd i'w gweld wedi gweithio'n dda.
- (5) Nododd yr aelodau y byddai'r system archebu maes parcio ar-lein ym Mhen y Pass ar gael yn fuan.
- (6) cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r Pennaeth Adnoddau Dynol yn cyflwyno adroddiad ar benodi Prif Weithredwr newydd (Swyddog y Parc Cenedlaethol) i gyfarfod arbennig o'r Awdurdod sy'n cael ei gynnwyl ar y 6ed Mawrth 2024.

### 4. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**

Hysbyswyd yr aelodau na dderbyniwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

### 5. **Datgan Budd**

Datganodd y Cynghorydd June Jones fuddiant personol a rhagfarnus yn eitem 12 ar y Rhaglen, o dan baragraffau 10 (2)(c)(i) a 12(1) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y mater dan sylw.

6. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd a 6 Rhagfyr 2023 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

7. **Materion er Gwybodaeth yn codi o'r cofnodion**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

8. **Log Gweithredu**

Cyflwynwyd – Log o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd yr Awdurdod, er gwybodaeth a chamau i'w gweithredu.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a dywedodd y dylai'r Log Gweithredu aros fel y'i cyflwynwyd.

**PENDERFYNWYD nodi'r Log Gweithredu.**

9. **Yr Awdurdod Cyllideb ac Ardoll ar Awdurdodau Cyfansoddol 2024/25**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid i gymeradwyo cyllidebau refeniw a chyfalaf 2024/25 ac i godi ardollau ar awdurdodau cyfansoddol ar sail ffigwr dyraniad grant drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid yr adroddiad yn fanwl a gofynnodd i'r Aelodau nodi cywiriad i'r adroddiad Cymraeg yn Atodiad 1 para. 8 'diffyg' ac nid 'gwarged'.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a thrafodwyd y canlynol:-

- Diolchodd yr aelodau i'r Prif Swyddog Cyllid am ei adroddiad a oedd wedi'i gyflwyno'n dda ac yn hawdd ei ddilyn.
- nododd Aelod fod y gost net a ariannwyd o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer Plas Tan y Bwlch yn cynrychioli 40% o gyfanswm y diffyg. Hefyd, roedd cynnydd o 18% mewn costau gwasanaeth yn fater sydd angen ei adolygu ymhellach.
- mewn ymateb i gwestiwn ynghylch 5 aelod o staff yn cael eu talu o'r cronfeydd wrth gefn, cadarnhaodd y Prif Weithredwr eu bod yn staff ar sail prosiect yr oedd cronfeydd wrth gefn eisoes wedi'u dyrannu ar eu cyfer. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddent yn cael cyfle i asesu'r materion hyn mewn cyfarfod o Weithgor yr Aelodau yn y dyfodol, lle gofynnir iddynt roi sylw i sut mae'r Awdurdod yn rheoli ei gyllid dros y 2-3 blynedd nesaf.
- dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r Tîm Rheoli, cyn cyflwyno adroddiad i'r Aelodau, yn cyfarfod i ystyried ffyrdd y gallai'r Awdurdod gyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol mewn ffordd wahanol neu benderfynu beth i beidio â'i gyflawni yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**

1. **cymeradwyo cyllideb refeniw a chyfalaf yr Awdurdod ar gyfer 2024/25 fel y nodir yn yr adroddiad a'r atodiadau.**
2. **awdurdodi codi ardollau ar y ddau gyngor cyfansoddol i gyfanswm o £1,373,262 yn unol â pharagraff 6.3 o adroddiad y Prif Swyddog Cyllid.**

10. **Strategaeth Gyfalaf 2024/25**

Cyflwynwyd – Adroddiad y Prif Swyddog Cyllid i gymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2024/25 a'r argymhellion yn ymwneud â'r Cod Darbodus.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid yr adroddiad technegol yn fanwl. Dywedodd efallai y bydd yn rhaid i'r Awdurdod fenthycu yn y dyfodol yn y tymor byr

i gyflawni'r Prosiect LIFE oherwydd galwadau llif arian posibl. Dywedodd y Prif Weithredwr fod hyn oherwydd estyniad 18 mis i'r prosiect a allai fod angen cyllid yn y tymor byr. Mewn ymateb i gwestiwn, rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau nad oedd yr Ysgwrn yn risg ariannol i'r Awdurdod ar hyn o bryd.

Manteisiodd y Prif Swyddog Cyllid ar y cyfle i ddiolch i Sian Owen a David Williams am eu gwaith a'u cefnogaeth.

#### **PENDERFYNWYD**

- 1. nodi nad oedd bwriad i fenthycu arian at ddibenion cyfalaf, fodd bynnag, argymhellwyd y cyfyngiadau isod ar lefel ddarbodus fel mesur rhagofalus rhag ofn y byddai argyfwng neu angen gwariant ar fyr rybudd.**
- 2. cymeradwyo'r Terfyn Benthycu Awdurdodedig presennol o £500,000 ar gyfer 2024/25, a Ffin Weithredol o £100,000.**
- 3. na ddylid gosod terfyn ar y gyfran o log sy'n daladwy ar gyfradd newidiol.**
- 4. mabwysiadu'r Strategaeth Benthycu Cyfalaf ar gyfer 2024/25 fel yr amlinellir ym mharagraff. 3.2 o'r adroddiad a nodi'r cynnwys sy'n ymwneud â'r Côt Darbodus (gweler y tablau dan baragraffau 2.2, 3.3 a phara. 7.1 o'r adroddiad).**
- 5. mabwysiadu'r Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2024/25 fel yr amlinellwyd ym mharagraffau. 3.4 i 3.13 o'r adroddiad, a nodi'r sefydliadau a restrir ym mharagraff 3.6.**

#### **11. Plas Tan y Bwlch**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr i roi diweddariad i alluogi'r Aelodau i ystyried a thrafod y cynnwys a'r argymhellion.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a dywedodd fod yr her ariannol bresennol yn rhoi'r cyd-destun i'r Awdurdod ystyried dyfodol Plas Tan y Bwlch a hefyd, mae adroddiad Archwilio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod adolygu ei fodel gweithredu yn y Plas ac ystyried sut mae'n cyflawni yn erbyn pwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr ei fod, yn unol â chyfarwyddyd Bwrdd Plas Tan y Bwlch, wedi cysylltu â dau bartner posibl (un o'r sector preifat, ac un o'r sector gwirfoddol) a oedd â diddordeb mewn rheoli/datblygu Plas Tan y Bwlch. Dywedodd y Prif Weithredwr fod angen cyflogi staff ychwanegol i sicrhau y gallai Plas Tan y Bwlch barhau i weithredu'n ddiogel dros fisoedd yr haf. Os yw hyn yn profi'n broblemus, mae gan y Prif Weithredwr yr awdurdod i leihau'r dyddiau/oriau agor neu o bosibl hyd yn oed gau Plas Tan y Bwlch a galw cyfarfod arbennig o'r Awdurdod, cyn adrodd yn ôl i'r Aelodau ym mis Medi 2024.

#### **PENDERFYNWYD**

- 1. parhau â'r model busnes presennol, tra bo hyn yn ymarferol ac yn ddiogel, am gyfnod hyd nes y gall yr Awdurdod ystyried yn ffurfiol ei opsiynau ar gyfer rheoli Plas Tan y Bwlch yn y dyfodol.**
- 2. gwahodd diddordeb gan bartneriaid posibl ar gyfer rheolaeth weithredol/datblygu Plas Tan y Bwlch.**
- 3. ar yr un pryd, cynnig Plas Tan y Bwlch ar y farchnad agored i ddarpar brynwyr.**
- 4. mynd ati i hyrwyddo Plas Tan y Bwlch fel busnes gweithredol i unrhyw ddarpar bartner/brynwr.**
- 5. caniatáu cyfnod o hyd at 6 mis i geisio gwarediad partner neu farchnad agored.**

6. y Tîm Rheoli a Bwrdd y Plas i fonitro cynnydd ac adrodd yn ôl i'r aelodau yn ôl yr angen, ond erbyn mis Medi 2024 fan bellaf, gydag argymhellion tymor hir yn seiliedig ar ganlyniad unrhyw drafodaethau.
7. defnyddio'r gronfa wrth gefn a nodwyd i bontio unrhyw bwysau/anghenion ariannol.

12. **Cynlluniau Gwariant Symiau Cymudo / Gohiriedig**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Swyddog Cynllunio (Polisi) yn argymhell bod yr Awdurdod yn cymeradwyo dau gynllun i'w gwario o'r gronfa symiau cymudo.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Swyddog Cynllunio (Polisi) yr adroddiad yn fanwl a thrafododd yr Aelodau a'r swyddogion y canlynol:-

- cadarnhaodd y Swyddog Cynllunio bod tua. £600k yng nghronfa symiau cymudo Eryri a ddefnyddir ar gyfer eiddo o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol.
- cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, er mwyn lleddfu pryderon yr Aelodau, y bydd pob cytundeb cyfreithiol yn cynnwys amodau sy'n ceisio sicrhau bod yr Awdurdod yn cadw ac yn rheoli lle mae'r arian yn cael ei fuddsoddi.
- teimlai Aelod y dylai'r Awdurdod yn y dyfodol roi'r gorau i ddefnyddio'r term 'tai fforddiadwy' sy'n wahaniaethol a defnyddio 'tai i bobl leol' yn lle hynny.

**PENDERFYNWYD**

1. cymeradwyo'r cynllun ar gyfer cyfrannu hyd at £500,000 o'r gronfa symiau cymudo tuag at Gynllun Prynu i Rent Cyngor Gwynedd, a
2. chymeradwyo'r cynllun ar gyfer cyfrannu £40,000 o'r gronfa symiau gohiriedig tuag at greu swydd Swyddog Tai Cymunedol ar gyfer Partneriaeth Tai Penmachno.

13. **Adroddiadau Gweithgorau**

Cyflwynwyd – Adroddiadau o gyfarfodydd y Gweithgor.

(1) **Gweithgor Aelodau**

Cyflwynwyd – Adroddiadau o gyfarfodydd y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd Ar 18 Hydref a 6 Rhagfyr 2023 .

Yn codi wedi hynny,

Cofnodion dyddiedig 18 Hydref 2023 – (4) Cymhwyso Cyfarwyddyd Erthygl 4 Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod adroddiad yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Cynllunio a Mynediad mis Mawrth ac y dylai Erthygl 4 fod yn weithredol erbyn mis Mai 2025.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiadau.**

(2) **Cyd Weithgor Lleol**

Cyflwynwyd – Adroddiad cyfarfod y Cyd Weithgor Lleol a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2023.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

14. **Cyfarfodydd Cyrff eraill**

Nid oedd yr Aelodau wedi mynychu unrhyw gyfarfodydd allanol fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.35**



**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI  
DYDD MERCHER 6 MAWRTH 2024**

Mr. Tim Jones (Cadeirydd)

**PRESENNOL:**

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd**

Cynghorwyr Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

**Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**

Brian Angell, Tracey Evans, Sarah Hattle, Naomi Luhde-Thompson, Delyth Lloyd;

**Swyddogion**

G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Nia Murray, Siwan Lyall, Anwen Gaffey.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio (ac eithrio'r bleidlais gudd) ac y bydd Eitemau 2 - 4 yn cael eu darlledu ar y we a hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach. Yn ddarostyngedig i ganlyniad Eitem 4, ni fydd recordiad na darllediad ar y we o Eitem 5.

**1. Is-Gadeirydd**

Amlinellodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y weithdrefn ar gyfer ethol Is-Gadeirydd ar gyfer yr Awdurdod a dywedodd ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig dau Aelod ar gyfer yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd a'r Cynghorydd Edgar Owen.

Diolchodd y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd i'r Aelodau am roi ei enw ymlaen ond dywedodd y byddai'n hoffi tynnu ei enwebiad yn ôl gan mai ef oedd Cadeirydd presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

**Etholwyd y Cynghorydd Edgar Owen yn Is-gadeirydd yr Awdurdod.**

Diolchodd yr Is-gadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

**2. Ymddiheuriad**

Mr. Emyr Williams, Prif Weithredwr.

**3. Datganiad Buddiant**

Datganodd Mr. G. Iwan Jones a Mr. Jonathan Cawley fuddiant yn eitemau 4 a 5 ar yr Agenda a gadawsant y cyfarfod tra bod y materion hyn yn cael eu trafod.

**4. Papur Opsiynau – Proses recriwtio Prif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol) APCE**

**Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972: Eithrio rhag datgelu dogfennau.**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol yn gofyn am gymeradwyaeth yr Awdurdod ar gyfer eithrio'r adroddiad dilynol.

**PENDERFYNWYD** bod yr adroddiad "Papur Opsiynau – Proses recriwtio Prif Weithredwr (Swyddog Parc Cenedlaethol) APCE" yn cael ei eithrio rhag cael ei ddatgelu am y rhesymau a amlinellwyd.

5. **Papur Opsiynau – Proses recriwtio Prif Weithredwr (Swyddog Parc Cenedlaethol) APCE**

Cyflwynwyd – Papur opsiynau ar y broses recriwtio ar gyfer Prif Weithredwr APCE (Swyddog y Parc Cenedlaethol) gan y Pennaeth Adnoddau Dynol.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Adnoddau Dynol yr adroddiad yn fanwl.

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried:-

- Disgrifiad swydd Prif Weithredwr diwygiedig a fyddai'n cynnwys cyfnod rhybudd estynedig. Yn codi ar hynny, gwahoddwyd yr Aelodau i anfon unrhyw sylwadau ychwanegol at y Pennaeth Adnoddau Dynol.
- amrywiol opsiynau recriwtio ar gyfer penodi Prif Weithredwr parhaol i'r Awdurdod.
- pa strwythur dros dro i'w fabwysiadu i gefnogi parhad busnes pe bai'r Prif Weithredwr presennol yn gadael cyn penodi olynnydd, a
- p'un ai i sefydlu panel recriwtio ar gyfer penodi'r Prif Weithredwr sy'n dod i mewn os mai Opsiwn A neu B oedd yr opsiwn a ffafrir.

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad yn fanwl a chytunwyd ar y canlynol:-

**PENDERFYNWYD**

1. **Opsiwn 2 oedd yr opsiwn recriwtio a ffefrir ar gyfer penodi Prif Weithredwr parhaol i'r Awdurdod.**
2. **mai Opsiwn B oedd yr opsiwn a ffefrir i ddarparu strwythur dros dro i gefnogi parhad busnes i'r Awdurdod.**
3. **sefydlu Panel Recriwtio i reoli'r broses o benodi'r Prif Weithredwr sy'n dod i mewn. Dylai'r panel sicrhau cydraddoldeb rhywiol a rheoli'r trefniadau dros dro.**

**Etholwyd yr Aelodau canlynol i wasanaethu ar y Panel:**

**Y Cynghorydd Elwyn Edwards, y Cynghorydd Edgar Owen (Is-gadeirydd), y Cynghorydd John Pughe Roberts, y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd, Mr. Tim Jones (Cadeirydd), Mrs. Sarah Hattle**

4. **cymeradwyo'r disgrifiad swydd Prif Weithredwr diwygiedig ac i gynnwys cyfnod rhybudd estynedig o 6 mis o leiaf. Y Panel Recriwtio i gael mewnbwn pellach drwy ychwanegu mwy o gyd-destun at y rôl er mwyn cyflawni disgrifiad swydd mwy penodol.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.45**



## TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

CYFARFOD YR AWDURDOD – 08.02.2023

RHIF EITEM A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
16. Telerau ac Amodau Gwasanaeth Uwch Dîm Rheoli APCE: Cyfarwyddwyr	- <b>bod gan y Panel, ynghyd â'r Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Swyddog Adran 151 newydd, y dasg a'r awdurdod i fynd i'r afael â materion posibl yn deillio o drosiant personél yn yr Uwch Dîm Rheoli.</b>	Angen cynnal cyfarfod i roi ystyriaeth i'r materion, dyddiad eto i'w gytuno.	NM	Wedi ei nodi ac yn monitro'r sefyllfa.	NA



## TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

CYFARFOD YR AWDURDOD – 08.02.2023

RHIF EITEM A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIA DAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
11. Plas Tan y Bwlch	<ul style="list-style-type: none"> <li>- gwahodd diddordeb gan bartneriaid posibl ar gyfer rheolaeth weithredol / datblygu Plas Tan y Bwlch.</li> <li>- ar yr un pryd, cynnig Plas Tan y Bwlch ar y farchnad agored i ddarpar brynwyr.</li> <li>- mynd ati i hyrwyddo Plas Tan y Bwlch fel busnes gweithredol i unrhyw ddarpar bartner/brynwr.</li> <li>- caniatáu cyfnod o hyd at 6 mis i geisio gwarediad partner neu farchnad agored.</li> <li>- y Tîm Rheoli a Bwrdd y Plas i fonitro cynnydd ac adrodd yn ôl i'r aelodau yn ôl yr angen, ond erbyn mis Medi 2024 fan bellaf, gydag argymhellion tymor hir yn seiliedig ar ganlyniad unrhyw drafodaethau.</li> <li>- defnyddio'r gronfa wrth gefn a nodwyd i bontio unrhyw bwysau/anghenion ariannol.</li> </ul>	I symud ymlaen fel yr amlinellwyd	PW/GIJ	Mae'r Pennaeth Eiddo wedi gwahodd 4 asiant sydd ag arbenigedd ar gyfer gwerthiant posibl neu brydles tymor hir i amlinellu eu telerau, mae 2 wedi ymateb yn gadarnhaol ac rydym yn aros am ragor o wybodaeth, mae 1 wedi gwrthod a'r llall eto i ymateb. Bydd penodiad yr asiant yn cael ei ystyried ymhellach gan y Tîm Rheoli fel mater o flaenoriaeth unwaith y bydd gwybodaeth lawn wedi dod i law.	NA

## EITEM RHIF 8

<b>CYFARFOD:</b>	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
<b>DYDDIAD:</b>	24 Ebrill, 2024
<b>TEITL:</b>	<b>RHAGLEN WAITH CORFFORAETHOL 2024-25 (DRAFFT)</b>
<b>AWDUR:</b>	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
<b>PWRPAS:</b>	Derbyn, trafod a mabwysiadu'r Rhaglen Waith Corfforaethol (Drafft) fel dogfen weithredol ar gyfer 2024-25

### 1. CEFNDIR:

- 1.1. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i gyrrff cyhoeddus gyhoeddi Datganiad Llesiant wrth osod eu hamcanion llesiant yn egluro pam eu bod yn teimlo y bydd yr amcan yn eu helpu i gyflawni'r nodau a sut mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Rhaid iddynt hefyd sicrhau eu bod yn cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau a bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth eu hardal.
- 1.2 Mae'r Datganiad Llesiant a'r Amcanion Llesiant wedi cael eu mabwysiadu fel dogfennau strategol gan yr Awdurdod yn ystod Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 23 Mawrth, 2021. (Fel dogfennau strategol mae Aseiad Effaith Cydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sydd bellach hefyd yn cynnwys sylw dyledus i'r Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd, wedi'i baratoi. (Dogfennau ar gael ar gais).
- 1.3 Mae Datganiad Llesiant ar gyfer yr Awdurdod yn gosod allan amcanion llesiant sy'n disgrifio sut y byddant yn ein helpu i gyflawni'r saith nod llesiant i Gymru ac yn sefydlu'r rhesymeg a'r camau y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni.
- 1.4 Mae anghymsywiad (gyda chafeatau) Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn caniatáu i'r Awdurdod fabwysiadu amcanion tymor hwy a fydd yn hwyluso gwell aliniad rhwng gwaith yr Awdurdod â Chynllun Rheoli'r Parc, y Cynllun Datblygu Lleol, mecanweithiau adrodd a sefydlu amcanion realistig a CHAMPUS ar gyfer rhaglenni gwaith blynyddol.
- 1.5 Mae'r Amcanion Llesiant sydd wedi eu mabwysiadu yn canolbwyntio ar dri maes gwaith allweddol - Amgylcheddau Cydnerth, Cymunedau Cydnerth a Ffyrdd Cydnerth o Weithio - ynghyd â phum is-thema i ddarparu ffocws.
- 1.6 Mae'r tri maes gwaith allweddol wedi ei datblygu i Raglen Waith Corfforaethol blynyddol ac wedi ei diweddarau ar gyfer 2024-25 sy'n amlinellu prosiectau, mentrau a

chamau gweithredol penodol a fydd yn cael eu cynnal i gyflawni'r Amcanion Gwelliant a Blaenoriaethau Gwasanaeth.

- 1.7 Unwaith y cwblheir y prosiectau a'r mentrau, bydd yr Awdurdod yn gallu mesur os yw'r gwelliannu wedi cael eu cyflawni ymhob un o'r tri maes allweddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2024-25.
- 1.8 Mae'r Awdurdod wedi derbyn Llythyr Cylch Gwaith Llywodraeth Cymru sy'n gosod allan yr Amcanion Blaenoriaeth a Gweithredoedd mae'r Llywodraeth yn disgwyl i'r Awdurdod weithredu yn ystod tymor y Senedd.

Mae'r blaenoriaethau wedi eu grwpio i bedair thema weithredu:

- Yr Amgylchedd
- Pobl a Lleoedd
- Rhagoriaeth mewn Llywodraeth a Chynllunio
- Cydweithio

sy'n unioni'n dda gyda'r amcanion llesiant sydd wedi'u mabwysiadu gan yr Awdurdod.

- 1.9 Mae Rhaglen Waith Corfforaethol yr Awdurdod wedi ei chroesgyfeirio gydag amcanion Llythyr Cylch Gwaith Llywodraeth Cymru a phrosiectau wedi eu nodi bydd, unwaith wedi'u gweithredu/cwblhau, yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion blaenoriaethau LIC.

## **2. GOBLYGIADAU ADNODDAU:**

- 2.1 Bydd y Rhaglen Waith Corfforaethol yn cael effaith ar adnoddau staff a goblygiadau ariannol ill dau ond fe ystyriwyd y ffactorau hyn wrth baratoi'r Rhaglen Waith.

## **3. ARGYMHELLIAD:**

- 3.1 **Bod yr Aelodau yn mabwysiadu'r Rhaglen Waith Corfforaethol (Drafft) fel dogfen weithredol ar gyfer 2024-25.**

## **4. PAPURAU CEFNDIROL:**

- 4.1 Rhaglen Waith Corfforaethol 2024-25 (Drafft).



AMCANION LLESIANT 2021-26 (Cyfeiriwch hefyd at Ddatganiad Llesiant APCE 2021-26)

## RHAGLEN WAITH CORFFORAETHOL 2024-25 (Drafft)

Yr Amcanion Llesiant, Prosiectau a Mentrau Cyfatebol a Chanlyniadau Ilwyddiant  
(Wedi eu croesgyfeirio at Lythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru ar gyfer APCE)

### 1. AMGYLCHEDDAU CYDNERTH

Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	<b>AC 1</b>	<b>GWELLA RHEOLAETH HAMDDEN AC UNRHYW EFFEITHIAU NEGYDDOL HAMDDEN</b>
----------------------------------------	-------------	-----------------------------------------------------------------------

Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen i gwblhau	Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol
<b>AC 1.1</b> Gweithredu Ymgyrch Cyfathrebu Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri	Parhaus	Pen. Cyfathrebu
<b>AC 1.2</b> Gwell darpariaeth ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn Pen y Pass trwy uwchraddio'r cyfleusterau a dehongli i ymwelwyr: ➤ Cwblhau a gosod gwelliannu i gyfleusterau dehongli Pen y Pass	Mawrth 2025	Pen. Cyfathrebu Pen. Wardeinio a Mynediad Swyddog Cyfathrebu
<b>AC 1.3</b> Monitro nifer yr ymwelwyr trwy gyfrifwyr pobl i sefydlu effaith defnyddwyr ar draws y Parc Cenedlaethol. Cynhyrchu adroddiad yn seiliedig ar ddata 2023.	Parhaus. Adroddiad nesaf erbyn Mehefin/ Gorff. 2024	Pen. Partneriaethau
<b>AC 1.4</b> Nodi a meintioli gwaith mynediad i liniaru effeithiau pwysau pobl ac adolygu'n flynyddol	Parhaus	Pen. Gwas. Wardeinio
<b>AC 1.5</b> Cynhyrchu Strategaeth Ymgysyllu ar gyfer gwaith llwybrau yn Eryri	Hydref 2024	Pen. Gwas. Wardeinio

Dogfen Weithredol

Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen i gwblhau	Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol
<b>AC 1.6</b> <b>Cynhyrchu canllawiau ar gyfer cyflawni gwaith mynediad yn Eryri</b>	Hyd. 2024	Pen. Gwas. Wardeinio
<b>AC 1.7</b> <b>Sicrhau fod llwybrau a hyrwyddir yn cael eu harolygu, eu cynnal a'u gwella'n rheolaidd pan fo angen a darparu adroddiad blynyddol i'r Tim Rheoli</b>	Parhaus	Pen. Gwas. Wardeinio
<b>AC 1.8</b> <b>Wardeiniaid Ardal i weithio gyda'r Cymunedau a phartneriaid i nodi a manteisio ar gyfleoedd i ddarparu ystod o lwybrau a hyrwyddir ar gyfer galluoedd amrywiol</b>	Parhaus	Pen. Gwas. Wardeinio
<b>AC 1.9</b> <b>Gweithio ar draws yr Awdurdod i integreiddio rhaglenni gwaith a datblygu Cynlluniau Ardal Wardeiniad</b>	Parhaus	Pen. Gwas. Wardeinio
<b>AC 1.10</b> <b>Cefnogi gwaith Swyddog Prosiect Yr Wyddfa Di-blastig</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ <b>Mewn partneriaeth â Cadw Cymru'n Daclus, trefnu a chynnal COPA1, yr uwchgynhadledd leuenctid gyntaf sy'n cael ei gynnal fel rhan o brosiect ymateb i lygredd plastig untro</b></li> </ul>	Medi 2024	Rheolwr Partneriaethau Swyddog Prosiect Yr Wyddfa di-blastig



Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	<b>AC 2</b>	<b>YMATEB I HERIAU NEWID YN YR HINSAWDD</b>
----------------------------------------	-------------	---------------------------------------------

Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen i gwblhau	Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol
<p><b>AC 2.1</b> Sicrhau gweithrediad y polisïau CDLI cyfredol sy'n cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd.</p>	Adroddiad blynyddol	Pennaeth Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth (Pen. RhDaC) Pennaeth Polisi Cynllunio (Pen. PC)
<p><b>AC 2.2</b> Effeithlonrwydd ynni a lleihau ôl-troed carbon adeiladau APCE i fod yn rhan annatod o'r Cynllun Rheoli Asedau newydd ymrochol gyda Ffyniant i Bawb Cymru – targedau Ystad Gyhoeddus Carbon Isel</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Cynnal adolygiad o'r Portffolio Asedau gyda'r Is-Grŵp Asedau gydag argymhellion i'w hystyried gan yr Awdurdod llawn ac unrhyw asedau dros ben i'w hystyried ar gyfer eu gwaredu/trosglwyddo perchnogaeth</li> </ul>	Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Newydd o Rhagfyr 2024 + ymlaen	Pen. Eiddo
<p><b>AC 2.3</b> Datblygu Cynllun Gweithredu i APCE fod yn garbon niwtral erbyn 2030 yn seiliedig ar argymhellion adroddiad yr Astudiaeth Garbon ac ystyried pa adnoddau staff sydd eu hangen i roi unrhyw gamau y cytunwyd arnynt a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar waith</p>	Mabwysiadu yn 2024	Cyfarwyddwr Gwas. Corfforaethol Pen. Eiddo
<p><b>AC 2.4</b> Datblygu Cynllun Gweithredu Carbon Isel ar gyfer Eryri, gan sicrhau bod hwn yn cynnwys ymrwymiad i</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Amcanion carbon isel yn y CDLI a Chynllun Eryri</li> <li>➤ Cynhyrchu Strategaeth Coed a Choetiroedd</li> <li>➤ Diweddarau Strategaeth Mawndiroedd</li> </ul>	Parhaus	Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir (CaRhT) Pennaeth Coed, Cadwraeth ac Amaeth (CCA)

Dogfen Weithredol

Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen i gwblhau	Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol
<b>AC 2.5</b> Sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i egwyddorion y "Ras i Sero", drwy fabwysiadu rôl arweinyddiaeth ac eiriolath gref yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd – gan gynnwys ymrwymo i'r 5 prif addewid sydd yn y "Ras i Sero". Gweithio gyda PCyDU/PyPC ar negeseuon strategol newid hinsawdd.	Parhaus	Cyf. CaRhT
<b>AC 2.6</b> Cefnogi partneriaeth strategol gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro ar Adfer Natur ac Atafaeliad Carbon yn Nhirweddau Dynodedig Cymru a cynnal swydd arweinydd strategol	Parhaus	Prif Weithredwr Arweinydd Strategol

Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	<b>AC 3</b>	<b>GWELLA RHEOLAETH A DEALLTWRIAETH O'N TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL</b>
----------------------------------------	-------------	-----------------------------------------------------------------------

<b>AC 3.1</b> Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol APCE	Haf 2024	Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol (TDd)
<b>AC 3.2</b> Sicrhau fod Rhaglen Waith Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau ar gyfer 2024/25 wedi'i chwblhau mewn pryd i sicrhau bod y Prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn 2025. ➤ Paratoi adroddiad yn diweddarau i aelodau	Parhaus - 2025  Rhag. 2024	Pen. TDd Rheolwr Prosiect y Carneddau
<b>AC 3.3</b> Cyflwynwyd Datganiad o Ddiddordeb a sicrhawyd arian Loteri, symud ymlaen a chyflawni prosiect Treftadaeth Ddiwyllianol Harlech ac Ardudwy	Parhaus hyd at Hyd. 2025	Pen TDd Swyddog Prosiect TDd
<b>AC 3.4</b> Cyfrannu'n weithredol at raglen waith Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd Tirweddau Llechi Gogledd Orllewin Cymru ➤ Cwblhau a gosod dehongliad o safle Ynyspandy	Parhaus  Hyd. 2024	Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol
<b>AC 3.5</b> Wardeiniaid i arwain teithiau cerdded misol gydag arbenigwr gwadd i hyrwyddo natur, diwylliant a threftadaeth	Parhaus 2024/25	Pen. Gwas. Wardeinio

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

Dogfen Weithredol

Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen i gwblhau	Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol
<b>AC 3.6</b> Cyfrannu'n weithredol at raglen waith barhaus y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol (HEG) dan arweiniad Cadw a'i weithgorau cysylltiedig, gan gynnwys Llesiant, Lliniaru Newid Hinsawdd, mawndiroedd a Threftadaeth Leol	Parhaus	Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol
<b>AC 3.7</b> Cynnal a datblygu Yr Ysgwrn fel amgueddfa a chanolfan ddiwylliannol o fri cenedlaethol a cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Aelodau	Rhag. 2024	Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol
<b>AC 3.8</b> Yn dilyn cwblhau Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli, cyflwyno rhaglen barhaus o hyfforddiant sgiliau traddodiadol a fydd hefyd yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd	Rhan 1. Hyd. 2024	Pen. TDd

Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	<b>AC 4</b>		MYND I'R
----------------------------------------	-------------	--	----------

<b>AC 4.1</b> Cynorthwyo i ddatblygu a dylunio cynigion rheoli tir yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, i sicrhau bod Eryri yn elwa o gynigion yn y dyfodol a bod nodau strategol Cynllun Eryri yn cael eu hadlewyrchu yng nghynigion y dyfodol.	Parhaus	Pen. Cadwraeth, Coed ac Amaeth (CAA), PW Cyf. CaRhT
<b>AC 4.2</b> Yn dilyn ymgynghoriad LIC, cynnal perthynas waith agos gyda'r sector tir i sicrhau bod gan yr Awdurdod ddealltwriaeth o oblygiadau parhaus effaith cynigion Cynllun Ffermio Cynaliadwy Cymru ar rinweddau arbennig Eryri	Parhaus	Pen. CCA

Dogfen Weithredol

Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	<b>AC 5</b>	<b>MYND I'R AFAEL Â'R DIRYWIAD MEWN NATUR</b>
----------------------------------------	-------------	-----------------------------------------------

Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen i gwblhau	Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol
<b>AC 5.1</b> Datblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar ddealltwriaeth a chynnwys e.e. SoNaRR (adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol), Adroddiad Cyflwr y Parc Cenedlaethol ayb. i hysbysu'r blaenoriaethau ar gyfer adfer natur yn Eryri	Haf 2024	Pen. CCA
<b>AC 5.2</b> Parhau i ddarparu gwelliant bioamrywiaeth trwy'r broses rheoli datblygu yn dilyn cyhoeddi unrhyw ganllawiau gan Lywodraeth Cymru	Adroddiad blynyddol	Pen. RhDaCh
<b>AC 5.3</b> Unwaith bydd canllawiau Llywodraeth Cymru wedi'u cyhoeddi , sicrhau bod CCA ar fioamrywiaeth yn cael ei gynhyrchu i gefnogi'r broses Rheoli Datblygu	Mawrth 2025	Pen. PC
<b>AC 5.4</b> Parhau i ddarparu prosiectau cymeradwy sy'n mynd i'r afael â nodau Safle Eryri (e.e. HLF Carneddau, LIFE (Coedwig Law Geltaidd, Cyforgesydd, Corsydd Crynedig, prosiect y Gylfinir) SMS Dinas Mawddwy, Rhaglen Genedlaethol Mawn, ENRAW, prosiectau Awyr Dywyll) a datblygu rhaglenni pellach	Adroddiad diweddarau dwywaith y flwyddyn	Pen. CCA Rheolwyr Prosiectau
<b>AC 5.5</b> Symud ymlaen ag arolwg ledled y Parc Cenedlaethol o safleoedd Coed a Choetiroedd Hynafol (PAWS)	Mawrth 2025	Pen. CCA

**AMGYLCHEDDAU CYDNERTH:** Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:

**AC1:** Fyddwn wedi datblygu a gweithredu egwyddorion a throthwyon arweiniol mewn perthynas ag effeithiau ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r dirwedd (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.1*)

**AC1:** Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2*)

**AC1, 2:** Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4*)

**AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5*)

**AC1:** Gan ddefnyddio'r strategaeth marchnata brand fel sylfaen, byddwn wedi datblygu cynllun a rennir gyda phartneriaid ar y wybodaeth a ddarparwn i ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid ymddygiad (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.3*)

**AC2, 4:** Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1*)

**AC2, 4:** Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2*)

**AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1*)

**AC5:** Mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2*)

**AC2, 4, 5:** Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol (*yn unol â Chynllun Eryri A4.2*)

**AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol. (*yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3*).

**LLYTHYR CYLCH GWAITH, LLYWODRAETH CYMRU: YR AMGYLCHEDD**

<b>Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LIC ar gyfer APCE</b>	<b>Prosiect/Gwaith APCE</b>
Cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu economi ddi-garbon drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 drwy'ch gwaith bob dydd ac amrywiaeth o ymyriadau datgarboneiddio	<b>AC 2.1. AC 2.2 AC 2.3 AC 2.4 AC 2.5</b>
Caefnogi'r symudiad oddi wrth geir preifat i drafnidiaeth fwy cynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau staff, ymwelwyr a defnyddwyr y gwasanaeth er mwyn cyrraedd y targed o 45% o deithiau'n defnyddio dulliau cynaliadwy erbyn 2040	<b>CC 3.3 CW 2.3</b>
Rhoi help rhagweithiol i ddal a storio carbon gan gynnwys drwy helpu i greu coetiroedd lle bo hynny'n briodol a chefnogi'n not o gryfhau'r mesurau i ddiogelu coetiroedd hynafol, a chynyddu'r cysylltiad â rhaglen y Goedwig Genedlaethol	<b>AC 5.5 (PAWS)</b>
Cymryd camau i wella cysylltedd, cyflwr, maint ac amrywiaeth ecosystemau, a chynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth, gan ymgorffori'r gwaith sydd ei angen i daro'r targedau cenedlaethol sy'n deillio o'r ymrwymiad 30x30	<b>AC 5.1 - AC 5.5</b>
Cefnogi'r rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawnogydd (NPAP) i adfer, gwella a chynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth, myned i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a rheoli dŵr. Dylech weithhio gyda CNC i daclo themâu'r NPAP, gan gynnwys y camau blaenoriaeth a'r themâu trawsbynciol	<b>AC 2.4 AC 5.1 AC 5.4</b>
Cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu cynllun â thargedau i helpu i adfer cynefinoedd morwellt a morfeydd heli ar hyd ein harfordir, helpu i wireddu uchelgeisiau Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chyfranu at ddatblygu polisi ar garbon glas	<b>AC 5.1</b>
Cronfa gyfalaf tirweddau cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy, a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru i gyflawni nodau nature a datgarboneiddio	<b>CW 2.1 CW 3.2</b>
Cymryd rhan weithredol mewn Cynlluniau Ynni Lleol i helpu i drawsnewid y system ynni sydd ei hangen i gyrraedd Sero Net, gan sicrhau mwy o fanteisio i'ch cymunedau	
Cymryd rhan gadarnhaol mewn mentrau i hyrwyddo ailddefnyddio a thrwsio, i gynyddu'r economi gylchol, a lleihau'r niwed a achosir i'r amgylchedd gan blastig untro drwy annog pobl i beidio â'i ddefnyddio lle gellir	<b>AC 1.10</b>

## 2. CYMUNEDAU CYDNERTH

Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	CC 1	CYNNAL A GWELLA ANSAWDD BYWYD PRESWYLLWYR
<p align="center"><b>Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 2.)</b></p>	<b>Amserlen i gwblhau</b>	<b>Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol</b>
	<p><b>CC 1.1</b> Datblygu adnodd ar-lein fel rhan o'r wefan newydd sy'n ymwneud â gweithgareddau a llwybrau yn y Parc Cenedlaethol wedi'i dargedu a'i deilwra'n briodol</p>	Parhaus
<p><b>CC 1.2</b> Fel rhan o'r Strategaeth Gwirfoddolwyr APCE ac mewn cydweithrediad â phartneriaid, parhau i ehangu cyfleoedd gwirfoddoli o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n cynnwys gweithgareddau corfforol a diwylliannol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Cefnogi a chymryd rhan yng nghynllun gwirfoddoli Caru Eryri 2024 gyda phartneriaid gan gynnwys Cymdeithas Eryri</li> <li>➤ Ystyried ac adolygu digwyddiadau Gwirfoddoli a Llesiant 2023, diweddaru DPA a gosod targedau ac argymhellion newydd ar gyfer 2024</li> <li>➤ Sefydlu rhaglen wirfoddoli ar gyfer y flwyddyn i ddod</li> <li>➤ Cynnal cyfres o ddigwyddiadau lles</li> <li>➤ Hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli ymhellach y tu allan i ranbarth Yr Wyddfa gyda chymorth Swyddogion Cyfathrebu</li> </ul>	Parhaus	Pen. Partneriaethau  Swyddog Gwirfoddoli a Lles  Swyddog(ion) Cyfathrebu
<p><b>CC 1.3</b> Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli i gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, rhai agored i niwed a grwpiau difreintiedig</p>	Parhaus	*Pen. Ymgysylltu Swyddog Gwirfoddoli a Lles
<p><b>CC 1.4</b> Sicrhau bod cynllunio yn cymryd rôl ragweithiol wrth annog tai fforddiadwy trwy weithio gydag asiantaethau eraill yn y sector hwn, er mwyn ceisio cyflawni'r targed blynyddol a nodir yn y CDLI</p>	Adroddiad blynyddol	Pen. RhDaCh Pen. PC

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

Dogfen Weithredol

Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 2.)	Amserlen i gwblhau	Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol
<p><b>CC 1.5</b> Yn dilyn penderfyniad gan yr Awdurdod i ohirio cynhyrchu Adolygiad CDLI Eryri tan 2025 er mwyn canolbwyntio ar gyflawni Cyfarwyddyd Erthygl 4: Symud ymlaen â bwriad yr Awdurdod i weithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ddileu hawliau datblygu a ganiateir i newid cartref preswyl parhaol i llety gwyliau neu ail gartref, gyda cherrig milltir allweddol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol cyn Haf 2024</li> <li>➤ Adrodd yn ôl ar y canfyddiadau a gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol mewn dull gweithredu yn ystod Hydref 2024</li> <li>➤ Paratoi CCA erbyn Mawrth 2025 a fydd yn rhoi arweiniad manylach ar weithredu</li> <li>➤ Anelu i gael ei fabwysiadu gan yr Awdurdod ym mis Mehefin 2025</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Cyn Haf 2024</li> <li>➤ Hydref 2025</li> <li>➤ Mawrth 2025</li> <li>➤ Mehefin 2025</li> </ul>	<p>Cyfarwyddwr CaRhT</p> <p>Pen. PC</p>
<p><b>CC 1.6</b> Parhau i ddarparu arian a mesurau i gefnogi cymunedau ac economïau lleol drwy Cronfa Cymunedau Eryri, a arienir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Grantiau Cymunedau a Lles y Parc Cenedlaethol, yn enwedig lle mae'r rhain yn cael eu harwain gan gymunedau eu hunain, mewn seilwaith gwyrdd, gwell mynediad at hamdden ar gyfer iechyd a lles, cynhyrchu ynni, gwelliannau amgylcheddol lleol megis rheoli sbwriel a gwastraff, datblygu cymunedol a'r laith Gymraeg. Bydd ffenestr ariannu newydd ar gyfer 2024-25 yn agor ac yn cael ei hyrwyddo o 18 Mawrth, 2024</p>	<p>Mawrth 2025</p>	<p>Rheolwr Partneriaethau</p> <p>Swyddog Prosiect Cronfa Cymunedau Eryri</p>

Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	<b>CC 2</b>	<b>CEFNOGI POBL IFANC</b>
----------------------------------------	-------------	---------------------------

<p><b>CC 2.1</b> Aelodau i gysidro Maniffesto Ieuenctid drafft</p>	<p>Mai 2024</p>	<p>Pen. Gwas. Wardeinio Swyddog Pobl Ifanc</p>
<p><b>CC 2.2</b> Datblygu'r cynllun Ceidwaid Ifanc er mwyn sicrhau gwaith partneriaeth effeithlon, darparu cyfleoedd eang a dod o hyd i gyllid i gynnal y cynllun</p>	<p>Chwefror 2024</p>	<p>Pen. Gwas. Wardeinio</p>

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith



Dogfen Weithredol

Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	<b>CC 3</b>	<b>HYRWYDDO TWRISTIAETH GYNALIADWY I YCHWANEGU GWERTH I GYMUNEDAU LLEOL</b>
----------------------------------------	-------------	-----------------------------------------------------------------------------

Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 2.)	Amserlen i gwblhau	Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol
<p><b>CC 3.1</b> Gweithio gyda Chyngor Gwynedd a CBS Conwy i ddatblygu a gweithredu cynllun strategol Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri. Unwaith y bydd y cynllun strategol wedi'i lansio, dechrau ar y gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu a thargedau a dangosyddion cysylltiedig. Mae cyfarfod cyntaf y Bartneriaeth Economi Ymwelwyr Cynaliadwy wedi'i drefnu ar gyfer mis Ebrill 2024</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Cwblhau Cynllun Gweithredu a gweithredu targedau a dangosyddion cysylltiedig</li> </ul>	Rhagfyr 2024	Pen. Partneiriaethau  Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy
<p><b>CC 3.2</b> Datblygu cyfleoedd i annog trafndiaeth mwy gwyrdd trwy'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu cynllun trafndiaeth a pharcio Gogledd Eryri</li> <li>➤ Parhau i weithio gyda partneriaid i ymateb i'r broblem parcio a materion trafndiaeth yn ardal Nantgwynant.</li> <li>➤ Parhau i hwyluso trafodaethau rhwng partneriaid er mwyn ymateb materion parcio a thrafnidiaeth yn ardal Ogwen</li> </ul>	Parhaus tan Ebrill 2025	Pen. Partneriaethau
<p><b>CC 3.3</b> Parhau i ddatblygu cynllun Llysgenhadon Eryri.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Cyflwyno dau modiwl newydd yn 2024 ar Coed Glaw Celtaidd a Phartneriaeth Tirweddau y Carneddau</li> </ul>	Parhaus 2024	Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa
<p><b>CC 3.4</b> Sicrhau bod y CDLI presennol yn rhoi ei bolisiâu ar waith yn gadarnhaol i gyfrannu at dwristiaeth gynaliadwy, sy'n ychwanegu gwerth at gymunedau lleol.</p>	Adroddiad blynyddol	Pen. RhDa Ch Pen. PC

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

Dogfen Weithredol

Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 2.)	Amserlen i gwblhau	Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol
<p><b>CC 3.5</b> Gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu Cynllun Cyflawni trwy Grŵp Cyflawni Gogledd Eryri a sefydlwyd y llynedd i alluogi gwell gwaith partneriaeth a blaenoriaethu a chyflawni prosiectau teithio a thrafnidiaeth cynaliadwy yn llwyddiannus. Sicrhau bod adborth cymunedol wedi'i ystyried wrth ddatblygu'r cynllun. Sicrhau ein bod yn cydweithio â thîm y CDLI fel rhan o'r broses CDLI mewn perthynas â pholisïau sy'n ymwneud â pharcio a thrafnidiaeth.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Cynorthwyo'r Grŵp Cyflawni i gwblhau a gweithredu Cynllun Cyflawni</li> </ul>	Hydref 2024	Pen. Partneriaethau

Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	<b>CC 4</b>	<b>HYRWYDDO A CHEFNOGI'R CYMRAEG YN WEITHREDOL</b>
----------------------------------------	-------------	----------------------------------------------------

<p><b>CC 4.1</b> Parhau i ddatblygu Yr Ysgwrn fel canolfan ddiwylliannol sy'n hyrwyddo diwylliant Cymraeg a mynd ati i ddarparu cyfleoedd i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg</p>	Parhaus	Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol
<p><b>CC 4.2</b> Diogelu a hyrwyddo'r defnydd o enwau lleoedd Cymraeg trwy gwblhau'r cam nesaf o safoni enwau lleoedd Eryri</p>	Mawrth 20245	Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol
<p><b>CC 4.3</b> Darparu cyfleoedd ac ennyn diddordeb pobl yn yr iaith Gymraeg, diwylliant a threftadaeth gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr ddysgu a defnyddio'r Gymraeg drwy'r strategaeth wirfoddoli.</li> </ul>	Parhaus	Swyddog Gwirfoddoli a Lles

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

Dogfen Weithredol

Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 2.)	Amserlen i gwblhau	Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol
<b>CC 4.4</b> Bydd prosiect Lleisiau ac Enwau Lleoedd y Carneddau a Chynllun Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy yn cofnodi, diogelu a dathlu enwau lleoedd Cymru trwy ddigwyddiadau mapio cymunedol, cyfweiliadau hanes llafar, prosiectau allgymorth a dehongli	Parhaus hyd at Rhagfyr 2025	Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol
<b>CC 4.5</b> Sicrhau bod Polisi Datblygu 18: yr Iaith Gymraeg a gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol yn y broses rheoli datblygu	Adroddiad blynyddol	Pen. RhDaCh

Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	<b>CC 5</b>	<b>DATBLYGU ECONOMI LEOL SY'N CEFNOGI DYNODIAD A RHEOLAETH ERYRI FEL PARC CENEDLAETHOL</b>
----------------------------------------	-------------	--------------------------------------------------------------------------------------------

<b>CC 5.1</b> Sicrhau gweithrediad cadarnhaol polisiau cyfredol y CDLI i ddatblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad y PC	Adroddiad blynyddol	Pen. RhDaCh
<b>CC 5.2</b> Cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i'r aelodau i'w drafod ac ystyried yr amserlen ar gyfer dechrau adolygiad o'r CDLI cyfredol	Adroddiad blynyddol	Pen. PC
<b>CC 5.3</b> Hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig Eryri yn gynaliadwy	Parhaus	Pen. Cyfathrebu

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

**CYMUNEDAU CYDNERTH:** Byddwn yn gwybod ein bod yn llwydo i gyflawni'r amcan llesiant pan:

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl *(yn unol â Chynllun Eryri B1.2)*

**CC1, 3, 5:** Rydym wedi creu cynllun ac yn canolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal a chadw llwybrau pellter hir wedi'u marcio'n dda, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-ddefnyddiwr (yn enwedig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), hyrwyddo llwybrau a chysylltiadau a dolenni rhwng trefi a phentrefi. *(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B2.1)*

**CC1, 2, 3, 5:** Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol *(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2)*

**CC1,3,5:** Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafndiaeth wyrddach *(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2)*

**CC2, 3, 4:** Rydym wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon dros iaith a diwylliant yr ardal *(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1)*

**CC4, 5:** Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth *(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1)*

**CC 4:** Rydym wedi gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig sy'n annog datblygiadau newydd i gynnal neu wella datblygiad y Gymraeg *(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1)*

**CC4:** Rydym wedi darparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymru yn yr ardal *(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.2)*

**CC4:** Fyddwn ni wedi amddiffyn enwau lleoedd Cymreig *(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.3)*

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â materion sylfaenol a datblygu atebion arloesol i ddarparu tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol *(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C3.1)*

**LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: POBL A LLEOEDD**

Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LIC ar gyfer APCE	Prosiect/Gwaith APCE
Cyfrannu at gyd-lunio'r Cynllun Ffermio cynaliadwy ac at ei roi ar waith	<b>AC 4.1</b>
Cyfrannu, lle bo'n briodol, at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu Strategaeth Bwyd Cymunedol i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol	-
Gweithio gydag Awdurdodau Tai, Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol a datblygwyr preifat, i ddatblygu atebion arloesol i broblemau tai difrifol, a chyfrannu at Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg	<b>CC 1.4</b>
Gweithio gyda phartneriaid fel Awdurdodau Lleol a Trhafnidiaeth Cymru i gael hyd i ffyrdd i leihau pwysau ymwelwyr ar y seilwaith lleol, gan gynnwys systemau trafndiaeth mwy cynaliadwy, ac ymgyrchoedd cyfathrebu i sicrhau hamddena cyrfifol. Rhaid cofio yr un pryd am bwysigwrydd twristiaeth i'n heconomi, a'ch rôl allweddol o ran diwallu anghenion ymwelwyr. Dylech gael eich arwain gan argymhellion a chanfyddiadau'r gwaith diweddar gan Archwilio Cymru ar dwristiaeth gynaliadwy	<b>AC 1.2 1.4 1.5 1.6 1.9 CC 3.1 – 3.6</b>
Helpu i ddynodi dyfroedd ymdrochi ar y tir a defnyddio systemau Draenio Cynaliadwy	-
Bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith Cymru gyfan arfaethedig ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol	-
Cydweithio â phartneriaid allweddol i gyflawni yn unol â <i>Blaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru</i> i ddiogelu a dehongli'r amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol	<b>AC 3.1 – AC 3.8</b>
Datblygu polisiau sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn cael ffynnu, gan gyflawni <i>Cymraeg 2050: Ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026</i>	<b>CC 4.1 – CC 4.5</b>
Cynyddu cyfleoedd i grwpiau agored i niwed, grwpiau difreintiedig a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa ar y tirweddau rydych chi'n eu rheoli	<b>CC 1.2 1.3</b>
Cynyddu'r hyfforddiant sgiliau, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli.	<b>CC 1.2 1.3 CC 2.1 2.2</b>

### 3. FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO

Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	<b>CW 1</b>	<b>DATBLYGU GWEITHLU MEDRUS</b>
----------------------------------------	-------------	---------------------------------

Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 3.)	Amserlen i gwblhau	Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol
<b>CW 1.1</b> <b>Ymgysylltu â'n staff ar bob lefel i gynorthwyo rheoli perfformiad:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Bydd holl aelodau staff yr Awdurdod yn cael eu gwerthuso o fewn 12 mis</li> <li>➤ Cynnal asesiadau anghenion hyfforddi yr holl staff o fewn 12 mis</li> </ul>	Parhaus Mawrth 2025	Pennaeth Adnoddau Dynol (AD)
<b>CW 1.2</b> <b>Cefnogi staff i fynychu grwpiau cymheiriaid y Parc Cenedlaethol i'w hysbysu am ddatblygiadau ac i gynorthwyo rheoli perfformiad a dealltwriaeth o fewn eu priod ddisgyblaethau</b>	Parhaus Mawrth 2025	Pen. AD Penaethiaid Gwasanaeth
<b>CW 1.3</b> <b>Datblygu ein gweithlu ymhellach a rhoi pob cyfle i staff ddatblygu i gwrdd â heriau'r dyfodol</b>	Parhaus Mawrth 2025	Penaethiaid Gwas. Pen. AD

Dogfen Weithredol

Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	<b>CW 2</b>	<b>DATBLYGU A HYRWYDDO ARFER GORAU</b>
----------------------------------------	-------------	----------------------------------------

Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 3.)	Amserlen i gwblhau	Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol
<p><b>CW 2.1</b> Rhannu cyflawniadau prosiectau Datgarboneiddio trwy gyllid Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy gyda chyrrff eraill o fewn tirweddau dynodedig a'r ystad gyhoeddus ehangach</p>	Mawrth 2024	Pen. Eiddo
<p><b>CW 2.2</b> Gwella Ymgysylltiad Staff a Mentrau Lles. Fel rhan o'n hymrwymiad i feithrin amgylchedd gweithle cefnogol a ffyniannus, rydym yn bwriadu rhoi sawl strategaeth ar waith i sicrhau llesiant ein gweithwyr a hyrwyddo diwylliant o gysylltedd a lles:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Ymchwilio a Gweithredu Arferion Gorau: byddwn yn ymchwilio ac yn mabwysiadu arferion gorau o barciau ac awdurdodau eraill mewn perthynas â chynnal gwiriadau gwylidwriaeth iechyd i staff er mwyn blaenoriaethau eu hiechyd a diogelwch</li> <li>➤ Dadansoddiad o Absenoldebau Salwch: Deall y ffactorau sy'n cyfrannu at absenoldeb salwch i nodi tueddiadau a gweithredu ymyriadau wedi'u targedu i hyrwyddo lles cyffredinol a lleihau absenoldeb</li> <li>➤ Mwy o Rwydweithio ymhlith Staff: Meithrin ymdeimlad o gymuned a chyfeillgarwch ymhlith ein gweithwyr trwy drefnu diwrnodau cyfarfod staff amlach, gan gynnwys cinio a digwyddiadau awyr agored, i ddarparu cyfleoedd ar gyfer ymlacio, cymdeithasu ac adnewyddu</li> </ul>	Mawrth 2025	Pen. AD

Dogfen Weithredol

Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	<b>CW 3</b>	<b>GWEITHIO'N EFFEITHIOL MEWN PARTNERIAETH</b>
----------------------------------------	-------------	------------------------------------------------

Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 3.)	Amserlen i gwblhau	Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol
<b>CW 3.1</b> Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus ac adroddiad cynnydd blynyddol cyntaf wedi ei chyflwyno i'r Awdurdod. Cyflwyno'r drydedd adroddiad cynnydd i'r Awdurdod	Mehefin 2024	Rheolwr Partneriaethau
<b>CW 3.2</b> Cefnogi gwaith y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol (NDLP) yng Nghymru	Parhaus	Prif Weithredwr
<b>CW 3.3</b> Parhau i gefnogi gwaith Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ledled y DU, y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol, Sefydliad Parciau Cenedlaethol a mentrau cydweithredol cysylltiedig eraill	Parhaus	Prif Weithredwr
<b>CW 3.4</b> Cyfrannu at ffurffio a datblygu swyddogaeth cynllunio Cyd Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru	Parhaus	Cyfarwyddwr CaRhT
<b>CW 3.5</b> Er mwyn cyflawni adolygiad Cynllun Eryri 2025 yn unol â'r amserlen, bydd data ar gyfer yr Adroddiad ar Gyflwr y Parc wedi'i gasglu a'i ddehongli gyda mewnbwn gan gydweithwyr mewnol ac allanol erbyn diwedd 2023.	Cyflwyno Crynodeb i'r Aelodau erbyn Rhagfyr 2024	Rheolwr Partneriaethau

Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	<b>CW 4</b>	<b>MODERNEIDDIO TREFNIADAU LLYWODRAETHU</b>
----------------------------------------	-------------	---------------------------------------------

<b>CW 4.1</b> Monitro presenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod	Mawrth 2025	Swyddog Gwas. Aelodau
<b>CW 4.2</b> Cefnogi a datblygu Aelodau'r Awdurdod drwy hyfforddiant a datblygu <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Parhau i gefnogi LIC i fireinio a darparu rhaglen hyfforddi ar egwyddorion arfer llywodraethu da ac atebolrwydd i Aelodau'r Awdurdod</li> </ul>	Parhaus	Cyf. Gwas. Corfforaethol



Dogfen Weithredol

Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	<b>CW 5</b>	<b>CYNNAL A GWELLA DEALLTWRIAETH A CHEFNOGAETTH CYMUNEDAU LLEOL I WAITH Y PARC CENEDLAETHOL</b>
----------------------------------------	-------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------

Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 3.)	Amserlen i gwblhau	Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol
<b>CW 5.1</b> Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli pellach yn Yr Ysgwrn i wella'r garfan bresennol o wirfoddolwyr, gan geisio recriwtio pobl ifanc sy'n awyddus i ddatblygu sgiliau newydd ac ennill profiad, gan ganolbwyntio ar ddarparu gweithgareddau gan wirfoddolwyr yn ogystal â rolau mwy traddodiadol fel tywyswyr ymwelwyr.	Parhaus	Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol + Rheolwr Profiadau Ymwelwyr (pan wedi'i apwyntio)
<b>CW 5.2</b> Adolygu a monitro'r mesurau yn y Strategaeth Ymgysylltu drwy'r adroddiad blynyddol ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol i sicrhau bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid yn deall ac yn ymwybodol o waith yr Awdurdod	Parhaus	Pen. Cyfathrebu
<b>CW 5.3</b> Ymgysylltu â chymunedau a'u hysbysu trwy gyfarfodydd â Chynghorau Cymuned	Hydref 2024 Trefnu o leiaf 1 cyfarfod	Pen. Gweinyddol a Gofal Cwsmer
<b>CW 5.4</b> Adfer cyswllt â pherchnogion tir a phartïon â diddordeb trwy gyfarfodydd Fforymau Mynediad Parc Cenedlaethol Eryri	Parhaus	Rheolwr Mynediad
<b>CW 5.5</b> Parhau i gysylltu â'r gymuned ffermio ac undebau ffermio trwy gyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Amaethyddol	Cyfarfod blynyddol	Pen. Cadwraeth Coed ac Amaeth
<b>CW 5.6</b> Cynnwys ein cymunedau lleol ym mhob agwedd bwysig o waith yr Awdurdod e.e. cyflwyno Cynllun Eryri a'r CDLI, llunio Canllawiau Cynllunio Atodol, Strategaethau Ymgysylltu wrth ddatblygu prosiectau newydd ayb. ➤ Datblygu Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol ar gyfer yr Awdurdod	Parhaus  Mawrth 2025	Pen. Partneriaethau Pen. PC  ➤ Rheolwyr Prosiect Cronfa Cymunedau Eryri

Dogfen Weithredol

Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	<b>CW 6</b>	<b>CYDBWYSO ADNODDAU AC YMDRECHION YR AWDURDOD</b>
----------------------------------------	-------------	----------------------------------------------------

Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 3.)	Amserlen i gwblhau	Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol
<p><b>CW 6.1</b>  <b>Gan ddefnyddio dull gweithredu deul, adolygu model gweithredu Plas Tan y Bwlch:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Ceisio gweithio mewn partneriaeth ar gyfer rheoli Plas Tan y Bwlch a</li> <li>➤ Bwrw ymlaen â'r paratodau ar gyfer gwerthu'r eiddo ar y farchnad agored os na fydd gweithio mewn partneriaeth yn ymarferol</li> </ul>	Mawrth 2025	PW Cyf. Gwas. Corfforaethol
<p><b>CW 6.2</b>  <b>Adolygu ffioedd meysydd parcio yr Awdurdod ac, os yn berthnasol, symud ymlaen â'r gwaith paratoi ar gyfer cynyddu'r ffioedd yn unol â darparwyr meysydd parcio eraill yn yr ardal</b></p>	Mawrth 2025	Pen. Eiddo
<p><b>CW 6.3</b>  <b>Symud ymlaen i adolygu potensial mashnachol Canolfannau Gwybodaeth yr Awdurdod</b></p>	Mawrth 2025	Pen. TDd Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy

**FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO:** Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:

**CW1, 2:** Rydym wedi buddsoddi yn ein staff i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau'r presennol a'r dyfodol.

**CW2, 3:** Pan fo Cynllun Eryri yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus.

**CW2, 4:** Rydym wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu presennol i sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac y bydd yn ddigon addasadwy i gwrdd â heriau yn y dyfodol. Monitro unrhyw newidiadau i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad.

**CW5:** Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdanynt, a sut y gallant helpu i ofalu amdanynt wedi cael eu nodi. *(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A5.1)*

**CW5:** Rydym wedi cefnogi, hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n helpu i amddiffyn a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol *(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A5.2)*

**CW5:** Fyddwn yn cynyddu cyfleoedd i ddeialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol *(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C4.1)*

**CW6:** Fyddwn yn cyflawni o fewn y gyllideb a neilltuwyd a defnyddir cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod mewn modd cynaliadwy.

**LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: LLYWODRAETHU A CHYNLLUNIO**

Amcanion blaenoriaeth a chymau gweithredu LIC ar gyfer APCE	Prosiect/Gwaith APCE
Cymryd rhan weithredol mewn rhaglen wella chefnogi gan CLILC o dan arweiniad y sector	-
Cyfrannu at lunio pecyn hyfforddi newydd ar gyfer aelodau APCau a datblygu dull cydgysylltiedig o hyfforddi APCau i rannu arfer gorau	<b>CW 4</b>
Hyrwyddo protocol newydd awdurdodau Lleol ar gyfer penodi aelodau APCau, cyn, yn ystod ac ar ôl etholiadau lleol, gan bwysleisio profiad a diddordeb uwchlaw ystyriaeth gwleidyddol cyn belled ag y bo modd o fewn y ddeddfwriaeth bresennol	<b>CW 4</b>
Croesawu'n llawn system flynyddol gryfach ar gyfer adrodd ar berfformiad yr aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru, ac ymchwilio sut i'w hestyn i benodiadau'r Awdurdodau Lleol	<b>CW 4</b>
Ymderchu i sicrhau rhagoriaeth mewn llywodraethu gan gynnwys rhannu arfer gorau rhwng APCau, gwneud y gorau o'r arweinydd Strategol Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu newydd	<b>CW 4</b>
Cyfrannu at lunio polisi cynllunio lleol a rhanbarthol, gan gynnwys drwy strwythur y Cyd Bwyllgor Corfforedig (CJC) a thrwy gydweithio ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol i roi polisiau Cymru'r Dyfodol ar waith (gan gyfeirio'n benodol at Bolisi 9 a'r gofyn i gynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth a seilwaith gwyrdd)	<b>CW 3.4</b>

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: CYDWEITHIO

Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LIC ar gyfer APCE (a Tirweddau Dynodedig Cymru (TDC))	Prosiect/ Gwaith APCE
Cefnogi Tirweddau Cymru (y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol) i ddatblygu ei huchelgais, sicrhau bod cydweithio'n digwydd ar bob lefel o fewn APCau ac AHNE a helpu i greu gweledigaeth strategol ar gyfer gweithredu ar gyfer 2022-24	CW 3.3
<p>Rhoi cytundeb teiran trawsnewidiol rhwng yr APCau ar waith i gynnal tîm o Gydgyssylltwyr Tirweddau Strategol a ariennir gan Lywodraeth Cymru i weithio ar draws ein Parciau a'n AHNE, a sicrhau bod amcnaion ac allbynnau'r swyddi hyn yn cael eu cynnwys o fewn trefniadau monitro ehangach yr APCau a TDC:</p> <p>i. <b>Arweinydd Strategol Adfer Natur a Dal a Storio Carbon</b>, i ymdrin â'r holl goetiroedd a chynefinoedd heb eu gwella a'u bioamrywiaeth, gan gynnwys rhywogaethau goresgynnol, a chyfleoedd i leihau allyriadau carbon</p> <p>ii. <b>Arweinydd Strategol Adfer, Nature a Rheoli Maetholion</b>, i ymdrin â rheoli pridd cynhyrchu, problemau i afonydd a'r môr oherwydd gwaith ar y tir, ewtroffigedd yn llynnoedd yr ucheldir, bioddiogelu dŵr rhag dŵr ffo amaethyddol, a chefnogi datblygiad byrddau Rheoli Maetholion.</p> <p>Bydd y ddwy swydd yn helpu i:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ddatblygu cynllun strategol i ymateb i'r argyfyngau nature a hinsawdd;</li> <li>• Cefnogi datblygu ffyrdd i Dirweddau Dynodedig allu addasu i'r Cynllun Ffermio Cynlidwy newydd;</li> <li>• Nodi sut y gall Tirweddau Dynodedig ddatblygu partneriaethau newydd a chefnogi blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, a nodi ffrydiau airannu arloesol.</li> </ul> <p>iii. <b>Arweinydd Strategol Rhagoriaeth Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu</b> i weithio ar draws yr holl APCau, gyda'i, swyddfa yn un ohonynt. Agwedd allweddol ar eiwaith fydd cymryd camau beiddgar i wella amrywiaeth a chydaddoldeb – ar Fyrddau, yn eich proffil staffio a'ch ymwelwyr a chefnogi APCau i fodloni'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a chynyddu'u cyfraniad at daclo tlodi plant a gwledig.</p>	AC 2.5
Rhannu profiad ac arfer gorau wrth i'r broses o greu Parc Cenedlaethol newydd fynd rhagddo	-

<b>CYFARFOD</b>	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
<b>DYDDIAD</b>	24 Ebrill 2024
<b>TEITL</b>	<b>ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL</b>
<b>ADRODDIAD GAN</b>	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
<b>PWRPAS</b>	Trafod Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol

## 1 CEFNDIR

- 1.1 Diau y bydd yr Aelodau'n cofio bod adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod ar 15 Tachwedd 2023 pan drafodwyd adroddiad drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol. Penderfynodd yr Awdurdod y dylai dderbyn yr adroddiad drafft a'r argymhellion fel y'u cyflwynwyd gyda'r mân oblygiadau adnoddau a fydd yn golygu y bydd angen cynyddu'r cyllidebau presennol.
- 1.2 Mae'r Awdurdod bellach wedi derbyn adroddiad terfynol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol sydd i'w weld ar wefan Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, ac mae dolen isod ar gyfer y fersiynau Cymraeg a Saesneg:

[Adroddiad Blynyddol 2024 i 2025](#)

[Annual Report 2024 to 2025](#)

- 1.3 Nid yw Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol wedi newid unrhyw agwedd ar yr adroddiad drafft o ran sut mae'n berthnasol i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.

## GOBLYGIADAU ADNODDAU

Bydd mân oblygiadau o ran adnoddau i'r cynnydd mewn lwfansau a nodir uchod a fydd yn golygu y bydd angen cynyddu'r cyllidebau presennol.

## ARGYMHELLIAD

Nodi cynnwys yr adroddiad.

## PAPURAU CEFNDIR

Adroddiad i'r Awdurdod dyddiedig 15 Tachwedd 2023

## EITEM RHIF 10

<b>CYFARFOD</b>	Awdurdod Parc Genedlaethol Eryri
<b>DYDDIAD</b>	24ain Ebrill 2024
<b>TEITL</b>	<b>DATGANIAD SEFYLLFA HAMDDEN AWYR AGORED 2024-2029</b>
<b>ADRODDIAD GAN</b>	Peter Rutherford – Rheolwr Mynediad a Lles
<b>PWRPAS</b>	Cyflwyno'r ddogfen derfynol i'w chymeradwyo gan yr Awdurdod

### 1. CEFNDIR

- 1.1 Lluniwyd y Strategaeth Hamdden wreiddiol (2012 – 2017) gan yr adran Blaengynllunio o fewn Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd yn ofynnol diweddarau'r ddogfen destun flaenorol hon i sicrhau ei bod yn berthnasol a'i bod yn addas i'r diben.
- 1.2 O ystyried y niferoedd cynyddol sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yng nghefn gwlad, mae'n bwysig bod yr Awdurdod yn rhagweithiol yn y sector hwn.
- 1.3 Yn dilyn cyfnod ymgynghori'r ddogfen ddrafft mae rhai newidiadau wedi'u gwneud i gwmpasu safbwyntiau'r Awdurdod ac ymatebion gan randdeiliaid o fewn y sector.

### 2. PWYNTIAU ALLWEDDOL

- 2.1 Mae'r ddogfen newydd yn **Atodiad 1**, yn cyd-fynd yn agos â'r Cynllun Rheoli statudol (Cynllun Eryri) a'i amcanion a rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.
- 2.2 Mae'r ddogfen hon yn cwmpasu, cymaint â phosibl, y tueddiadau diweddaraf yn y sector hamdden awyr agored ac yn sicrhau bod gweithgareddau'n gynaliadwy.
- 2.3 Mae'r ddogfen yn ystyried anghenion ymwelwyr, cymunedau lleol, a'r sectorau anabl a llai abl fel ei gilydd.

- 2.4 Mae'r ddogfen yn rhagweithiol o ran ei dull gweithredu tuag at welliannau seilwaith a phrosiectau mynediad-cyfeiriedig, a gyflawnir fel rhan o'n gwaith neu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill, lle bydd y PC yn mynd ati i hyrwyddo'r egwyddorion opsiwn lleiaf cyfyngol lle bynnag y bo modd.
- 2.5 Mae'r ddogfen yn ddigon hyblyg i sicrhau ein bod yn barod i weithio gydag eraill lle gall newidiadau deddfwriaethol ddigwydd yn y dyfodol, gan gynnwys mynediad at ddŵr neu unrhyw newidiadau i ddarpariaethau mynediad ar gyfer Hawliau Tramwy Cyhoeddus neu dir mynediad.

### **3. ARLOESIADAU**

- 3.1 Mae ail hanner y ddogfen yn cynnwys dull gweithredu newydd tuag at y sector hamdden. Mae hyn yn seiliedig ar "ddatganiadau gweithgaredd" sy'n berthnasol i bob math (o weithgaredd hysbys) sy'n digwydd o fewn y Parc Cenedlaethol sydd erbyn heddiw, yn amrywiol iawn.
- 3.2 Mae'r datganiadau hyn yn amlinellu safiad yr Awdurdod ar y gweithgareddau amrywiol yn y sector hwn a sut y bydd yr Awdurdod yn ymateb i'r gweithgareddau hyn ac yn gweithio gyda'r holl randdeiliaid (fel grwpiau defnyddwyr, tirfeddianwyr a rheolwyr tir, awdurdodau lleol eraill, a'r Fforymau Mynediad Lleol) i annog a hyrwyddo arfer da, a bod yn barod i helpu i ddatrys materion pan fyddant yn codi.
- 3.3 O ran rheolaeth hamdden mae'n bwysig bod Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cael ei weld fel dylanwad cadarnhaol a rhagweithiol, a'i fod yn barod i ymateb i, a gweithio gydag, eraill o fewn y sector.

### **4. GOBLYGIADAU ADNODDAU**

- 4.1 Ni ragwelir y bydd unrhyw straen ychwanegol o fewn y cyllidebau gweithredol presennol o ran cyflawni amcanion y Strategaeth Hamdden.

### **5. ARGYMHELLION**

1. Bod yr Aelodau'n cymeradwyo cynnwys y Strategaeth Hamdden ddrafft (**Atodiad 1**) fel y'i cyflwynwyd.



# PARC CENEDLAETHOL ERYRI

## DATGANIAD SEFYLLFA HAMDDEN AWYR AGORED

### 2024-2029



■ Parc Cenedlaethol Eryri  
■ Eryri National Park



# Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b>	<b>5</b>
Pwrpas Datganiad Sefyllfa Hamdden Awyr Agored Parc Cenedlaethol Eryri	<b>5</b>
Cwmpas	<b>6</b>
Cyd-destun Strategol	<b>7</b>
<b>Cefndir</b>	<b>8</b>
Statws Parc Cenedlaethol	<b>8</b>
Nodweddion arbennig	<b>9</b>
Perthynas â chynlluniau a pholisïau eraill	<b>10</b>
<b>Hamdden yn Eryri</b>	<b>11</b>
Mynediad	<b>11</b>
Y cynnig hamdden awyr agored yn Eryri	<b>13</b>
Cydbwysu hamdden awyr agored gyda rhinweddau arbennig Eryri	<b>14</b>
Cadw pobl yn ddiogel	<b>15</b>
<b>Rheoli hamdden awyr agored o fewn y Parc Cenedlaethol</b>	<b>15</b>
Hamdden awyr agored: Bodloni canlyniadau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (2020-2025)	<b>17</b>
Twristiaeth Gynaliadwy	<b>17</b>
Newid yn yr Hinsawdd	<b>19</b>
Treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol	<b>20</b>
Lles	<b>21</b>
Mynediad	<b>22</b>
Gwybodaeth a Dealltwriaeth	<b>24</b>
Seilwaith a Busnes	<b>25</b>

<b>Datganiadau Gweithgareddau Hamdden Awyr Agored</b>	<b>26</b>
Cerdded	26
Cŵn am dro	28
Dringo creigiau, sgramblo a chlogfeini	29
Beicio	30
Beicio mynydd	31
Beiciau trydan	32
Eryri Hygyrch	33
Chwaraeon dŵr	34
Pysgota	35
Rhedeg mynydd	36
Cyfeiriannu	37
Triathlonau	37
Digwyddiadau wedi'u trefnu	38
Canolfannau addysg awyr agored	40
Marchog	41
Chwaraeon awyrol (di-fodur)	41
Gweithgareddau modurol / gyrru oddi ar y ffordd	42
Dronau	43
Gwersylla gwyllt	44
Faniau gwersylla a chartrefi modur	45
Gweithgareddau eraill	45
<b>Datganiadau Gweithgareddau Hamdden Diwylliannol ac Amgylcheddol</b>	<b>46</b>
Teithiau gyrru a bysiau /coetsis	46
Gwyllo bywyd gwyllt	47
Safleoedd treftadaeth ac atyniadau ymwelwyr	47
Digwyddiadau a gwyliau	47
Astudiaeth	48
Celf a ffotograffiaeth	48
Awyr dywyll	49
<b>Gweithredu, Monitro ac Adolygu</b>	<b>50</b>
Gweithredu	50
Monitro	50
Adolygu	50
Ffynonellau Gwybodaeth	51



## Rhagymadrodd

### **Pwrpas Datganiad Sefyllfa Hamdden Awyr Agored Parc Cenedlaethol Eryri**

Mae tirwedd eiconig Eryri gyda'i naw cadwyn o fynyddoedd a 73 milltir o arfordir yn cynnig cyfleoedd helaeth ar gyfer adloniant, hamdden a dysgu i bobl o bob oed a gallu. Mae'r datganiad hwn yn amlinellu sefyllfa Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (ENPA) mewn perthynas â mynediad a hamdden awyr agored o fewn tirweddau amrywiol Eryri am y pum mlynedd nesaf. Mae'r datganiad hwn yn nodi sut y gall yr Awdurdod weithio i ddarparu hamdden awyr agored cynaliadwy a chyfrannu at ganlyniadau perthnasol Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (Cynllun Eryri).

Mae'r datganiad yn ystyried rheolaeth strategol hamdden awyr agored, gan gydnabod yr angen i fod yn ymatebol i'r adolygiad o Gynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol a drefnwyd ar gyfer 2025. Yn ogystal, rhaid i'r Awdurdod fod yn hyblyg a gallu addasu i'r newidiadau a thueddiadau sylweddol o ran cyfranogiad mewn hamdden awyr agored ar ôl COVID19 a gwerthfawrogiad cynyddol o werth hamdden awyr agored i iechyd a lles cymunedau lleol ac ymwelwyr.

Mae sefyllfa'r Awdurdod o ran hamdden awyr agored a mynediad yn cyd-fynd â pholisïau presennol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ei rôl allweddol wrth gyflawni'r agenda iechyd a llesiant fel y'i diffinnir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cyflwynir datganiadau polisi ar gyfer gweithgareddau unigol a nodir themâu trawsbynciol. Mae'r agweddau cadarnhaol ar hamdden awyr agored mewn tirwedd eiconig yn cael eu cydnabod ynghyd â'r angen i reoli materion posibl megis rheoli traffig, effeithiau ar fioamrywiaeth yn sgil diraddio cynefinoedd lleol ac aflonyddwch amgylcheddol, gwrthdaro â defnyddiau tir eraill, gwrthdaro rhwng grwpiau defnyddwyr a gyda lleol, cymunedau, a gwanhau naws am le Eryri.

Nid yw'r Awdurdod yn gweithio ar ei ben ei hun ond trwy bartneriaethau cryf gyda'r sefydliadau niferus sy'n ymwneud â gofalu am Eryri ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r datganiad hwn yn berthnasol i bob cymuned a rhanddeiliad sy'n darparu, yn rheoli, yn hyrwyddo neu'n cael eu heffeithio gan hamdden awyr agored. Mae'n diffinio sefyllfa lle gellir cytuno ar gamau rheoli a'u rhoi ar waith ar y cyd â phartneriaid.



## Cwmpas

Yn ei ddatganiad, diffinnir hamdden awyr agored fel ‘unrhyw weithgaredd hamdden sy’n digwydd yn yr awyr agored, lle gall pobl ymarfer, archwilio a dod yn gyfarwydd ag amgylcheddau naturiol a diwylliannol.’

Yn Eryri, mae rhai ardaloedd yn cael eu defnyddio’n fwy dwys ar gyfer hamdden, y rhai mwyaf nodedig yw’r Wyddfa, Dyffryn Ogwen (y Carneddau a’r Glyderau) a Dyffryn Conwy. O ganlyniad, mae pentrefi gogledd Eryri megis Capel Curig, Betws y Coed, Beddgelert, Llanberis, Nant Peris a Rhyd Ddu yn gynyddol brysur. Mae ardaloedd eraill yn ne a dwyrain y Parc Cenedlaethol hefyd yn boblogaidd megis Cader Idris, Harlech, Dyffryn Ardudwy, Aberdyfi, Dolgellau a Llyn Tegid, Y Bala.

Drwy ddatgan yn glir safbwynt yr Awdurdod ar fynediad a gweithgareddau hamdden awyr agored ar draws Eryri, mae’r datganiad hwn yn amlinellu dull cyffredinol o reoli hamdden cynaliadwy. Mewn rhai o’r ardaloedd mwyaf poblogaidd, mae’r pwysau sy’n deillio o hamdden awyr agored yn sylweddol. Yn y meysydd hyn, mae’r Awdurdod yn gweithio gyda, a bydd yn parhau i weithio gyda, sefydliadau partner i sicrhau bod pobl yn gallu gwerthfawrogi a mwynhau Eryri gyda’r effaith leiaf bosibl ar ei nodweddion arbennig.

Tra bod y strategaeth yn canolbwyntio ar ardal y Parc Cenedlaethol, mae’r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd ardaloedd y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol gan gynnwys trefi cyfagos, tair Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO Castell Harlech a’r Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, a rhannau o Biosffer Dyfi UNESCO. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill ar faterion trawsffiniol pan fo angen.



## Cyd-destun Strategol

Bydd y cynllun hwn yn cael ei gyflawni yng nghyd-destun nifer o strategaethau sefydliadol a lleol/cenedlaethol yn ogystal â deddfwriaeth gan gynnwys:

- Cynllun Eryri 2020
- Amcanion Llesiant APCE a Rhaglen Waith Gorfforaethol
- Cyngor Gwynedd a Strategaeth Economi Ymwelwyr Eryri
- Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) – Cyngorau Gwynedd a Chonwy
- Cynllun Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Cyngor Gwynedd ac Eryri 2035
- Cynllun Llesiant Cyngor Gwynedd a Môn 2023-2028 Cynllun
- Llesiant Lleol Conwy a Dinbych 2023-2028
- Cynllun Corfforaethol a Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)
- Deddf Priffyrdd 1980
- Deddf Cefn Gwlad 1968
- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981
- Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (Cymru) 2000
- Deddf yr Amgylchedd 1995
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Parciau Cenedlaethol 194 9
- Gwarchodfa Biosffer Dyfi UNESCO



## Cefndir

### Statws Parc Cenedlaethol

Dynodwyd Parc Cenedlaethol Eryri yn 1951 yn dilyn Adroddiad Hobhouse (1947) a fu'n sail i'r Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Parc Cenedlaethol Eryri oedd y cyntaf i gael ei sefydlu yng Nghymru a dyma'r ehangaf, ac mae'n ymestyn dros 2,132 km sgwâr (823 milltir sgwâr) o Gonwy yn y gogledd i Aberdyfi yn y de.

Mae Eryri yn cynnwys cymysgedd amrywiol o dirweddau y mae llawer ohonynt yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr oherwydd eu harddwch naturiol a'u llonyddwch. Mae'r Parc Cenedlaethol yn enwog am ei gefnlenni mynyddig helaeth ond mae hefyd yn cynnig dyffrynnoedd ac arfordiroedd hardd a heb eu difetha. Ychydig iawn o leoedd yn y byd lle mae'n bosibl profi'r holl amgylcheddau hyn o fewn pellter mor fyr i'w gilydd.

Pwrpasau statudol Awdurdod y Parc Cenedlaethol, fel y nodir yn y gyfraith o dan Adran 61 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yw:

1. Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol
2. Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parciau Cenedlaethol.

Wrth gyflawni'r pwrpasau hyn, mae hefyd yn ofynnol i'r Awdurdod gefnogi lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol y Parc Cenedlaethol.

Pan fydd y pwrpasau hyn yn gwrthdaro â'i gilydd, yna dylid defnyddio Egwyddor Sandford i roi rwy o bwys ar gadwraeth yr amgylchedd.

#### **Egwyddor Sandford.**

Os oes gwrthdaro rhwng diogelu'r amgylchedd a phobl yn mwynhau'r amgylchedd, na ellir ei ddatrys gan reolwyr, yna mae'n rhaid i warchod yr amgylchedd bob amser gymryd blaenoriaeth.



# Rhinweddau Arbennig

Y rhinweddau arbennig yw nodweddion diffiniol Parc Cenedlaethol. Maent yn nodi beth sy'n gwneud yr ardal yn arbennig ac unigryw. Cyfuniad o naw rhinwedd arbennig Eryri yw craidd ei ddyndodiad fel Parc Cenedlaethol ac mae'n diffinio'r hyn sy'n rhoi ei naws unigryw o le iddo.

Naw rhinwedd arbennig Eryri yw:

1. Tirweddau amrywiol: Yr amrywiaeth o dirweddau o ansawdd uchel ac ardaloedd arfordirol o fewn ardal ddaearyddol fechan - yn amrywio o arfordir i ucheldiroedd tonnog i'r mynyddoedd geirwon y mae Eryri yn enwog amdanynt.
2. Cydlyniant cymunedol: Mae ymdeimlad cadarn o hunaniaeth gymunedol, cydlyniant, parhad a chynwysoldeb yn cyfuno i roi 'ymdeimlad o le a pherthny' cryf o fewn Eryri.
3. Bywiogrwydd yr iaith Gymraeg: Amlwg iawn yn Eryri gan ei bod yn parhau i fod yn ddewis iaith mewn llawer o amgylcheddau cymdeithasol a phroffesiynol. Mae'n amlwg mewn enwau lleoedd lleol, y bywyd gwyllt a'r hanes sydd ynddynt ac felly mae'n gynhenid i unigrywiaeth ein treftadaeth ddiwylliannol a naturiol.
4. Ysbrydoliaeth i'r Celfyddydau: Mae Eryri yn lle sydd wedi ysbrydoli rhai o ddiwylliant, llên gwerin, celf, llenyddiaeth a cherddoriaeth amlycaf y genedl, dylanwad sy'n parhau hyd heddiw.
5. Llonyddwch ac unigedd: Y cyfle i bobl ddeall a mwynhau'r Parc Cenedlaethol yn weithredol, tra'n cynnal manau o dawelwch, llonyddwch ac unigedd, a thrwy hynny hybu agweddau ar iechyd, lles, a myfyrdod personol.
6. Adloniant helaeth: Cyfleoedd ar gyfer adloniant, hamdden a dysgu i bobl o bob oed a gallu.
7. Tirweddau hanesyddol: Mae'r berthynas newidiol rhwng pobl a natur dros amser wedi cynhyrchu tirweddau o harddwch ac amrywiaeth mawr yn Eryri; ased cenedlaethol sy'n hanfodol i'n hunaniaeth ac i'n 'ymdeimlad o le' a'n lles unigol.
8. Daeareg enwog : Daeareg gymhleth, amrywiol ac enwog, sydd wedi bod yn hanfodol wrth ddylanwadu ar ddisgyblaethau daeareg a daearyddiaeth yn rhyngwladol.
9. Rhywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd rhyngwladol: Mae 17 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol yn Eryri ; mwy nag mewn unrhyw Barc Cenedlaethol arall yng Nghymru a Lloegr; a 56 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'r fioamrywiaeth aruthrol yn adlewyrchu'r dirwedd amrywiol, daeareg, hinsawdd a rheolaeth tir. Mae cyfoeth planhigion ac anifeiliaid yn sylfaenol i hanes, diwylliant, iaith, economi, a lles parhaus pawb sy'n byw yn yr ardal ac yn ymweld â hi.

Mae hamdden awyr agored yn dibynnu ar, yn cyfrannu at, neu'n effeithio ar bob un o'r naw nodwedd arbennig. Mae'r datganiad sefyllfa hwn yn canolbwyntio ar ansawdd arbennig 6 a sut y gellir rheoli hamdden awyr agored yn gynaliadwy er budd pawb.

# Perthynas â chynlluniau a pholisïau eraill

Bwriad y datganiad sefyllfa hwn yw ategu sawl cynllun.

Mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri® dri chynllun strategol:

- Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (Cynllun Eryri 2020-25): dogfen bartneriaeth sy'n amlinellu gweledigaeth a rennir ar gyfer yr ardal.
- Y Cynllun Datblygu Lleol: sy'n gosod safonau a pholisïau ar gyfer datblygiad o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r CDLI yn rhestru ffactorau i'w hystyried wrth werthuso ceisiadau cynllunio a rhoi caniatâd cynllunio.
Cyngorodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo gwirio'r cofnodion.

**1. Ymddiheuriadau**

Ni chyflwynwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**2. Datgan Budd**

Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

**3. Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2023 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

**4. Adroddiad Mynediad a Lles**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Rheolwr Mynediad a Lles i roi diweddariad i'r Aelodau ar weithgareddau'r gwasanaeth, sy'n cynnwys monitro niferoedd ymwelwyr a sefyllfa'r Awdurdod mewn perthynas â mynediad i ddŵr mewndirol o fewn y Parc Cenedlaethol.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Rheolwr Mynediad a Lles yr adroddiad a rhoddodd gyflwyniad ar y ffigurau ymwelwyr manwl a gasglwyd yn ystod 2022 ar gyfer Yr Wyddfa, Ogwen a Chwm Idwal, Cader Idris ac eraill. Nododd yr Aelodau fod gan yr Awdurdod linell sylfaen ar gyfer pob maes ers 2014, a bod yr adroddiad blynyddol ar gael ar wefan yr Awdurdod.

Croesawodd yr Aelodau'r cyflwyniad a thrafodwyd y canlynol:-

- mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Rheolwr Mynediad a Lles fod pobl sy'n teithio i fyny ar y trêrn yn gyffredinol yn prynu tocynnau dwyffordd ac mai anaml y byddent yn cerdded i lawr. Cadarnhaodd fod 180,000 yn ychwanegol o bobl yn teithio i'r copa ar y trêrn.
- adroddodd y Rheolwr Mynediad a Lles bod tua 2000 o feicwyr yn beicio i'r copa bob blwyddyn a bod y cytundeb gwirfoddol rhwng y beicwyr a'r Awdurdod, sy'n cyfyngu beicwyr o'r mynydd rhwng 10.00yb a 5.00 yp yn ystod misoedd yr haf, yn gweithio'n dda.

- mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Rheolwr Mynediad a Lles er nad oedd data manwl gywir, mae staff sy'n gweithio ar lawr gwlad yn cyfrifo bod 50-75% o gerddwyr ar Lwybr Watkin ddim ond yn mynd mor bell â'r rhaeadrau.
- Trafododd aelodau a swyddogion hawliau tramwy cyhoeddus a materion mynediad yn gyffredinol. Dywedodd y Rheolwr Partneriaethau am y bwriad i sefydlu cynllun peilot gyda Thîm Achub Mynydd Llanberis dros fisoedd yr haf i edrych ar faterion sydd a wnelo ymwelwyr ac y gellid cyflwyno adroddiad ar y canlyniad i'r Aelodau maes o law.
- Croesawodd yr aelodau'r adroddiad a'r tueddiadau a ddangoswyd.

Cafodd yr Aelodau hefyd gyflwyniad byr ar fynediad i ddŵr a dywedwyd wrthynt am sefyllfa'r Awdurdod. Nododd yr Aelodau nad oes unrhyw hawliau mynediad cyhoeddus i afonydd yn y DU oni bai bod cytundeb gwirfoddol â thirfeddianwyr unigol.

Trafododd aelodau a swyddogion faterion mynediad i ddŵr fel a ganlyn:-

- Nododd yr Aelodau rai o'r atebion presennol, sy'n cynnwys defnyddio mesuryddion i arddangos lefelau dŵr a sefydlu cytundebau pwynt mynediad ar gyfer canŵod gyda thirfeddianwyr, fel yn achos Conwy Uchaf. Trafodwyd hefyd anghenion pysgotwyr yn dymhorol, materion atebolrwydd, hawliau rhyng-ianwol a hyrwyddo bioddiogelwch a chyfrifoldebau wrth ddefnyddio'r dŵr.
- gofynnodd Aelod sut y gallai'r Awdurdod gynorthwyo'r cyhoedd drwy ddarparu gwybodaeth a data ar berchnogaeth tir fel y gallant gael y caniatâd gofynnol, ac a ddylai'r Awdurdod gael rôl arweiniol? Dywedodd y swyddogion, er bod rhestr fach ar wefan yr Awdurdod, mai ychydig y gallai'r Awdurdod ei wneud oherwydd materion GDPR. Dywedodd y Rheolwr Partneriaethau fod polisi'r Awdurdod yn glir a'i fod hefyd ar gael fel rhan o'r Cynllun Llysgenhadon.
- cyfeiriodd y Prif Weithredwr at ddau lyn ym mherchnogaeth yr Awdurdod nad ydynt yn cael eu hyrwyddo ar hyn o bryd ar gyfer nofio gwyllt, ac y gallai fod yn bosibl i Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, fel partneriaid naturiol, ddod at ei gilydd i sefydlu rhwydwaith o lynnoedd ar gyfer y cyhoedd fel man cychwyn. Er y dylid cofio bod denu capasiti i unrhyw ardaloedd yn dod gydag ystyriaethau seilwaith clir, bioddiogelwch, iechyd a diogelwch ac atebolrwydd.
- nododd Aelod fod rhai llynnoedd yn anaddas ar gyfer nofio am resymau cadwraeth a rhesymau eraill.
- mewn ymateb i gwestiwn ar wybodaeth a ddelir gan Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru ar leoliad carthbyllau sy'n bwydo i'r llynnoedd a hefyd lefelau ffosffadau, nododd yr Aelodau fod gan Cyfoeth Naturiol Cymru gofrestr am ddim ond gan nad oedd unrhyw orfodaeth i ddarparu'r wybodaeth, nid oedd yn gyflawn.
- Yn codi wedi hynny, cytunodd swyddogion i edrych ar dechnoleg LoRa Wan ar gyfer y dyfodol.

## **PENDERFYNWYD croesawu'r adroddiad a'r cyflwyniad.**

### **5. Strategaeth Coed a Choetiroedd Eryri**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaethyddiaeth i ddiweddarau'r Aelodau ar Strategaeth Coed a Choetiroedd Eryri.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaethyddiaeth yr adroddiad a darparodd yr Aelodau gyda'r cefndir a'r cynnydd hyd yma. Hysbyswyd yr aelodau o'r amserlen arfaethedig a bod drafft cyntaf o'r strategaeth i fod ar gael erbyn diwedd Ionawr 2024. Yna

byddai'n cael ei chyfieithu a'i ddsbarthu i'r Aelodau i gael eu sylwadau, cyn ei rhyddhau ar gyfer cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn y Gwanwyn.

Dyweddod y Pennaeth Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaethyddiaeth y byddai'r Strategaeth o fudd i'r Awdurdod nid yn unig i ymateb i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ond bydd hefyd yn helpu i roi barn pan fydd cwmnïau am brynu tir ar gyfer coetir neu pan fydd rheolwyr tir yn penderfynu mai plannu coed oedd y ffordd ymlaen. Dywedwyd wrth yr aelodau bod y strategaeth yn cyd-fynd â'r gwaith a wnaed gan Small World Consulting ar ôl troed carbon y Parc Cenedlaethol, a bod gweithio gyda Coed Cadw, sydd â rhwydwaith cynhwysfawr ac arbenigedd, yn cael ei symud ymlaen ar y sail y bydd y strategaeth yn cael ei llywio gan yr ymateb i'r ymgynghoriad.

Cafodd yr aelodau eu calonogi gan yr adroddiad ac fe'u sicrhawyd y byddai'r strategaeth yn cefnogi'r adolygiad o Gynllun Rheoli'r Parc ac yn bwydo i mewn i'r Adroddiad ar Gyflwr y Parc, yn yr un modd ag y bydd y Strategaeth Mawndir, y Strategaeth Rhododendron a'r Strategaeth Adfer Natur. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr mai prif bwrpas y strategaeth oedd darparu tystiolaeth i'r Awdurdod asesu a ddylid cefnogi neu wrthwynebu coed mewn ardal heb amharu ar bwrpasau'r Parc Cenedlaethol ac y bydd casgliad yr adroddiad yn cael ei gynnwys fel canlyniad statudol yng Nghynllun Rheoli'r Parc.

### **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad ac aros am y strategaeth ddrafft.**

#### **6. Cynllun Ffermio Cynaliadwy**

Derbyniwyd – Adroddiad llafar ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gan y Pennaeth Cadwraeth Coetiroedd ac Amaethyddiaeth.

Adroddwyd – Darparodd y Pennaeth Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaethyddiaeth drosolwg cyffredinol o'r cynllun a ddilynwyd gan drafodaethau manylach ynghylch y goblygiadau i Eryri a'r dull gorau o ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd yr ymgynghoriad ar gyfer haen gyntaf y cynllun yn weddol gyfyng ac yn cynnwys cwestiynau penodol. Byddai un ymateb i'r ymgynghoriad ar ran yr holl Dirweddau Dynodedig, gydag ymateb ar wahân yn benodol i Eryri, pan fydd swyddogion yn cynnwys sylwadau ac ystyriaethau adeiladol ychwanegol lle bo modd.

Cytunodd yr Aelodau yr hoffent weld yr ymateb i'r ymgynghoriad a gofyn am y cyswllt fel y gallent hefyd gymryd rhan fel unigolion. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 7 Mawrth 2024.

Trafododd yr aelodau a swyddogion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gan nodi:-

- na fyddai gwybodaeth am lefel y taliadau ar gael tan yr Haf a phryder arall oedd na fyddai SoDdGA yn cael eu cynnwys yn y taliadau.
- bydd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn mynd trwy sawl ffilter cyn iddo gael ei gyflwyno. Bydd y Prif Weithredwr, fel Cadeirydd Tirweddau Cymru, yn cymeradwyo'r ymateb ar ran yr 8 tirwedd ddynodedig a bydd gwahaniaethau barn ar unrhyw faterion yn cael eu trafod gyda'r Cadeirydd.
- gallai cyrff cynghori fel Cyswllt Ffermio, pe byddent yn cael eu dewis, yn darparu arweiniad amgylcheddol cryf, er bod prinder pobl â'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni ledled Cymru. Pryder arall oedd gallu'r system a Cyfoeth Naturiol Cymru i ymdopi â'r galw.



- bydd swyddogion yn ceisio dylanwadu ar blannu coed ar y cyfle cyntaf er mwyn mynd i'r afael â pherygl penderfyniad cyfrifiadurol gan Lywodraeth Cymru, ac roedd y Pennaeth Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaethyddiaeth yn ddiolchgar i'r Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd am ei gymorth ar y mater coed a'r economi.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a disgwyl am ddolen i Ddogfen Ymgynghorol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.**

**7. Plas Tan y Bwlch**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr i roi diweddariad i'r aelodau ei ystyried a'i drafod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a'r cefndir. Rhoddodd wybod am ystyriaethau Bwrdd Plas Tan y Bwlch, yr opsiwn Partneriaeth a'r posibilrwydd o waredu ar y farchnad agored.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i gasgliadau ac argymhellion y Bwrdd gan nodi:-

- y papur cefndir a oedd yn rhoi manylion i'r Aelodau am ystyriaethau'r Bwrdd.
- y cyd-destun ariannol a'r angen i gwrdd â'r her ariannol dros y tair blynedd nesaf.
- y byddai adroddiad manwl pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf yr Awdurdod ar 7 Chwefror 2024 i gael penderfyniad ffurfiol.
- y byddai'r Awdurdod yn dod i gasgliad ddiwedd yr Haf ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch.

Diolchodd yr aelodau i'r Bwrdd am eu gwaith a chefnogwyd y dull gweithredu deul dros gyfnod cyfyngedig o amser er mwyn caniatáu i fusnesau lleol a busnesau elusennol y cyfle i fwrw ymlaen â phrofion ar y farchnad agored.

**PENDERFYNWYD nodi:-**

1. na allai'r Bwrdd ddatblygu gweledigaeth ar gyfer Plas a oedd yn cyflawni'n gryf yn erbyn pwrpasau'r Parc Cenedlaethol tra'n sicrhau budd masnachol.
2. ni allai'r Bwrdd gefnogi'r model busnes presennol o ran cyflawni yn erbyn pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a dod yn fasnachol effeithiol.
3. byddai'r Bwrdd yn dymuno ystyried modelau partneriaeth ond derbyniodd y dylai cyfnod o'r fath fod â therfyn amser a dim mwy na 6 mis.
4. pe na bai unrhyw bartneriaeth yn aeddfedu, yna dylid cynnig Plas ar y farchnad agored, yn ddelfrydol fel busnes gweithredol ond yn amodol ar gyngor asiant.
5. o ystyried y cyfyngiadau amser, argymhellodd y Bwrdd y dylid bwrw ymlaen â dull deul o ran cael trefniant partneriaeth a chael gwared ar y farchnad agored.
6. yn codi o gyfarfod y Gweithgor Aelodau heddiw, i aros am adroddiad manwl i Gyfarfod yr Awdurdod ar 7 Chwefror 2024 am benderfyniad ffurfiol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 13.20**

# ADRODDIAD CYFARFOD GWEITHGOR YR AELODAU A GYNHALIWDYD AR 6ed MAWRTH 2024

## PRESENNOL:

### Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elwyn Edwards, Annwen Hughes, June Jones, Edgar Owen (Cadeirydd), Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

### Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Dilwyn Owain Roberts;

### Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Brian Angell, Sarah Hattle, Tim Jones, Delyth Lloyd;

### Swyddogion

Emyr Williams, G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Rhys Owen, Geraint Evans, Anwen Gaffey.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo i wirio'r cofnodion.

#### 1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr Louise Hughes, Jo Nuttall; Tracey Evans, Naomi Luhde-Thompson.

#### 2. Datgan Budd

Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

#### 3. Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 24 ain Ionawr 2024 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

#### 4. Strategaeth Coed a Choetiroedd Eryri

Derbyniwyd – Adroddiad llafar gan y Pennaeth Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaethyddiaeth i ddiweddarau'r Aelodau ar Strategaeth Coed a Choetiroedd Eryri.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaethyddiaeth ddiweddariad byr a dywedodd fod hwn yn gyfle pellach i'r Aelodau wneud sylwadau ar Strategaeth Coed a Choetiroedd Eryri drafft a ddsbarthwyd yn ddiweddar. Ar ôl y cyfarfod heddiw, bydd y tîm dylunio yn golygu'r ddogfen, ac er nad oedd ar ei ffurf derfynol, roedd cyfeiriad y ddogfen yn eithaf clir. Bydd y Strategaeth wedyn ar gael ar wefan yr Awdurdod fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Trafododd yr aelodau a swyddogion Strategaeth Coed a Choetiroedd Eryri a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- Diolchodd yr aelodau i'r Pennaeth Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaethyddiaeth a'i dîm am eu gwaith ac am y cyfle pellach i roi sylwadau ar y strategaeth.
- gofynnodd Aelod a fyddai'r strategaeth yn cynnwys cyfeiriad at bren meddal, fel llarwydd coch, a fydd yn darparu enillion economaidd cyflymach. Dywedodd y Pennaeth Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaethyddiaeth fod y Sector Coedwigaeth Fasnachol wedi'u gwahodd i roi sylwadau, ochr yn ochr â rhai darparwyr preifat mawr, lle bydd rhai o'u harsylwadau'n cael eu hymgorffori yn y strategaeth, yn amodol ar nifer y dynodiadau yn y dirwedd a'r seilwaith lleol ac ati.

- Cytunodd yr Aelodau ei bod yn hanfodol sicrhau bod coed yn cael eu plannu yn y lleoliadau cywir a dewis rhywogaethau a all ymdopi â newid hinsawdd a goresgyn afiechydon.
- gofynnodd Aelod i rôl coed a gwrychoedd mewn cysylltedd natur gael ei adlewyrchu'n well yn y ddogfen. Roedd hyn yn arbennig o bwysig fel ffordd ymlaen i fynd i'r afael â her bioamrywiaeth.
- nododd Aelod rôl coed o ran atal llifogydd a mynd i'r afael ag effaith newid hinsawdd. Teimlai hefyd y dylid annog y sector masnachol i beidio â pharhau i blannu 'Sbriws Sitka' oherwydd y cynnydd mewn afiechydd a'i effaith ar y dirwedd, tra'n nodi y gall coetiroedd masnachol da greu cyflogaeth a helpu bywyd gwyllt.
- pe bai'r Aelodau'n teimlo eu bod am wneud sylwadau pellach, gallent ymateb i'r ymgynghoriad yn unigol.

Yn codi wedi hyny, manteisiodd y Pennaeth Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaethyddiaeth ar y cyfle i roi gwybod i'r Aelodau bod ymateb y Cynllun Ffermio Cynaliadwy bellach wedi'i ddrafftio, yn seiliedig i raddau helaeth ar ymateb y Tirweddau Dynodedig, ac y byddai'n cael ei ddsbarthu i'r Aelodau heddiw. Yn anffodus, gan fod yr ymgynghoriad yn dod i ben y diwrnod canlynol, cynghorwyd yr Aelodau i anfon eu sylwadau ymlaen yn uniongyrchol at y Pennaeth Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaethyddiaeth cyn hanner nos heno.

## **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

### **5. Sesiwn Hyfforddi ar Symiau Cymudo / Cytundebau Adran 106**

Derbyniwyd – Sesiwn hyfforddi Aelodau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir a'r Swyddog Cynllunio (Polisi).

Adroddwyd – Cynghorodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir am ei rôl yn darparu hyfforddiant parhaus y gall Aelodau ofyn amdano ar unrhyw adeg. Roedd hyfforddiant heddiw mewn ymateb i gais diweddar am ragor o wybodaeth am Gytundebau Adran 106, y cyfeirir atynt yn y mwyafrif o Bwyllgorau Cynllunio ac roedd yn bwysig i Aelodau ddeall y prif egwyddorion.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir gyflwyniad PowerPoint a oedd yn darparu:-

- cyflwyniad i Gytundebau Adran 106
- Defnyddiau Adran 106
- Adran 106 Tai Fforddiadwy a Symiau Gohiriedig
- Swm Gohiriedig – Polisi Cynllun Datblygu Lleol (Polisi Datblygu 9: Trosi a newid defnydd adeiladau gwledig)

Croesawodd yr Aelodau'r cyflwyniad a thrafodwyd y canlynol:-

- mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir mai'r Awdurdod sy'n penderfynu ar nifer y tai fforddiadwy pan fydd datblygwr yn adeiladu cartrefi newydd ar dir preifat. Mae hyn yn seiliedig ar bolisi'r Awdurdod fel yr amlinellir yn y Cynllun Datblygu Lleol.
- cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod yr Awdurdod angen taliad swm cymudo / gohiriedig ar gyfer pob trosiad ac na fyddai byth yn cytuno i daliad swm gohiriedig yn lle tŷ fforddiadwy ar ddatblygiad tai newydd. Yn codi wedi hynny, cytunodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir i ddarparu manylion i'r Aelodau am y symiau cymudo / gohiriedig a dderbyniwyd gan yr Awdurdod a'r tai fforddiadwy a ddarparwyd. Gofynnodd

yr Aelodau hefyd am gael y wybodaeth ddiweddaraf a gofyn am gopi o'r cyflwyniad heddiw.

- holodd Aelod ynghylch nifer y Cytundebau Adran 106 nas cwblhawyd oherwydd nad oedd pobl leol yn gallu codi'r swm cymudo / gohiriedig er eu bod yn berchen ar yr adeilad i'w drosi. Cytunodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod cydbwysedd anodd i'w daro. Dywedodd fod y taliad swm cymudo / gohiriedig yn rheoli nifer y trosiadau o fewn y Parc Cenedlaethol, nad ydynt efallai bob amser ar gyfer y bobl leol. Gallai cyfaddawd gynnwys caniatáu i amod 'lleol' gael ei ddefnyddio, a allai gael ei dderbyn ymhen amser gan Lywodraeth Cymru, ac y gellid ei gynnwys yn ystod adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol.
- dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir mai ychydig iawn oedd y gyfran o Gytundebau Adran 106 a geisiwyd am resymau tai nad ydynt yn fforddiadwy yn y Parc Cenedlaethol gan eu bod yn cael eu pennu gan raddfa'r datblygiad.
- Hysbyswyd yr Aelodau bod asesiadau o Gytundebau Adran 106 at ddibenion monitro yn cael eu cynnal pan fydd yr eiddo'n cael eu gwerthu.

Parhaodd y Swyddog Cynllunio (Polisi) gyda'r cyflwyniad PowerPoint a rhoddodd fanylion pellach ar:-

- Sut y cyfrifi'r y Swm Cymudo / Gohiriedig, lle'r oedd swm y cyfraniad ariannol yn seiliedig ar 58% o swm y Grant Tai Cymdeithasol y byddai Cymdeithas Tai fel arfer yn disgwyl ei gael gan Lywodraeth Cymru i adeiladu tŷ fforddiadwy yn yr ardal. Ar gyfer trosi adeiladau, byddai'r ffigwr yn 50% o'r ffigwr hwn.
- Adran 106 a thai fforddiadwy: sut y cyfrif'r pris fforddiadwy. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y swyddog cynllunio fod y data incwm yn seiliedig ar incwm cyfartalog aelwydydd.
- cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod Cytundeb Adran 106 yn sicrhau bod y tŷ yn parhau i fod yn fforddiadwy am byth ac yn seiliedig ar fethodoleg prisiau RICS.

Yn codi wedi hynny, cytunodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod angen i swyddogion asesu sut y gallant gyfleu'r wybodaeth hon yn well ac a fyddai cyfres o fideos ar wefan yr Awdurdod yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r broses.

**PENDERFYNWYD** croesawu'r sesiwn hyfforddi ac aros am y manylion pellach, fel yr amlinellwyd.

**Daeth y cyfarfod i ben am 14.25**

## AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI / SNOWDONIA NATIONAL PARK AUTHORITY

Amserlen / Timetable 2024/2025

CYFARFOD	DYDD	AMSER	2024							2025							MEETING	
			MEH	GOR	AWST	MEDI	HYD	TACH	RHAG	ION	CHWE	MAW	EBR	MAI	MEH	DAY		TIME
AWDURDOD	MER	10.00	CCB 12 AGM			11		13			5		30		CCB 11 AGM	WED	10.00	AUTHORITY
PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU	MER	10.00		10				27				19				WED	10.00	PERFORMANCE & RESOURCES COMMITTEE
PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD	MER	10.00	26			4	16		4	22		5	9	21	25	WED	10.00	PLANNING & ACCESS COMMITTEE
PWYLLGOR SAFONAU	GWE	pm				20							11			FRI	pm	STANDARDS COMMITTEE
PANELI YMWELD Y GOGLEDD A'R DE	MER	am	5	3		18	23		11	29		12		7	4	WED	am	NORTHERN AND SOUTHERN INSPECTION PANELS
BWRDD PLAS TAN Y BWLCH	MER	am/pm	12			11		13			5				11	WED	am/pm	PLAS TAN Y BWLCH BOARD
GWEITHGOR AELODAU	MER	am/pm	26			4	16		4	22		5	9	21	25	WED	am/pm	MEMBERS' WORKING GROUP
CYD WEITHGOR LLEOL	GWE	am	28					29							27	FRI	am	LOCAL JOINT WORKING GROUP
DIWRNOD DATBLYGU AELODAU	GWE	am/pm	21									21			20	FRI	am/pm	MEMBER DEVELOPMENT DAY
SEMINAR AELODAU TIRWEDDAU DYNODEDIG CYMRU (Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro)								6 - 7										DESIGNATED LANDSCAPES WALES MEMBERS' SEMINAR (Pembrokeshire Coast National Park)
CYNHADLEDD PARCIAU CENEDLAETHOL Y DG (Parc Cenedlaethol Northumberland)						24- 26												NATIONAL PARKS UK CONFERENCE (Northumberland National Park)
EUROPARC (Online Conference)								6 - 7										EUROPARC (Cynhadledd Ar-lein)
<b>CYFARFOD</b>	<b>DYDD</b>	<b>AMSER</b>	<b>JUNE</b>	<b>JUL</b>	<b>AUG</b>	<b>SEPT</b>	<b>OCT</b>	<b>NOV</b>	<b>DEC</b>	<b>JAN</b>	<b>FEB</b>	<b>MAR</b>	<b>APR</b>	<b>MAY</b>	<b>JUNE</b>	<b>DAY</b>	<b>TIME</b>	<b>MEETING</b>

**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU  
DYDD MERCHER 29 TACHWEDD 2023**

Cyng. Elfed Powell Roberts (Gwynedd) (Cadeirydd)

**PRESENNOL:**

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**

Cyng. Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Cyng. Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**

Brian Angell, Tracey Evans, Sarah Hattle, Tim Jones, Delyth Lloyd;

**Swyddogion**

Emyr Williams, G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, David Williams, Nia Murray, Awel Gruffydd, Anwen Gaffey;

**Yn bresennol**

Bleddyn Rhys – Gwasanaeth Archwilio Mewnol

**Ymddiheuriadau**

Cynghorwyr June Jones, Kim Jones, Ifor Glyn Lloyd; Naomi Luhde-Thompson.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo i wirio'r cofnodion ac y byddai ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Louise Hughes i'r cyfarfod yn dilyn ei thriniaeth ysbyty yn ddiweddar.

2. **Datgan Budd**

Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

3. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023 eu derbyn ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

4. **Log Gweithredu**

Cyflwynwyd – Cofnod o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, er gwybodaeth ac i'w gweithredu.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a dywedodd y dylai'r Log Gweithredu aros fel y'i cyflwynwyd.

**PENDERFYNWYD nodi'r Log Gweithredu.**

## 5. **Diweddariad ar y Gyllideb 2023/24**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Cyllid i hysbysu'r aelodau ynghylch trosglwyddiadau sylweddol o fewn cyllideb y flwyddyn ariannol gyfredol a rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau ar gynnydd yn erbyn y cyllidebau refeniw a chyfalaf, ynghyd ag amcanion ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Swyddog Cyllid yr adroddiad manwl, a oedd yn crynhoi'r cyllidebau refeniw a chyfalaf diwygiedig ar gyfer saith mis cyntaf 2023/24 ac yn rhoi rhagamcan o sefyllfa'r Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

### **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad a nodi'r sefyllfa ariannol gyfredol ar gyfer 2023/24.**

## 6. **Cyllideb Refeniw Sylfaenol 2024/25**

Cyflwynwyd – Adroddiad y Prif Swyddog Cyllid i'r Aelodau nodi'r Gyllideb Sylfaenol fel y'i hamcangyfrifwyd ar gyfer 2024/25 a'r sefyllfa ariannol a ragwelir.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid yr adroddiad a'r cefndir a chadarnhaodd fod y diffyg yn y gyllideb yn cynrychioli tua 10% o gyfanswm cyllideb yr Awdurdod.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a thrafodwyd y canlynol:-

- Trafododd yr aelodau a swyddogion y cronfeydd wrth gefn a chadarnhaodd y Prif Weithredwr fod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o lefel y cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu dal i gefnogi amrywiol brosiectau megis cynlluniau CDL ac ati.
- mewn cyfarfod diweddar â'r Gweinidog, hysbyswyd yr Is-Gadeirydd fod Llywodraeth Cymru yn profi eu blwyddyn anoddaf ers sefydlu'r Senedd.
- dywedodd y Prif Weithredwr y gallai'r Parciau Cenedlaethol fod yn destun setliad gwastad tan 2027. Unwaith y bydd y setliad drafft wedi'i gyhoeddi, byddai'r Prif Weithredwr yn cyfarfod gydag uwch Aelodau i ddechrau mynd i'r afael â'r diffyg cyllidebol a ragwelir o £877,930, y mae angen nodi hanner ohono yn y flwyddyn i ddod, cyn cyflwyno adroddiad i'r Awdurdod ei ystyried.
- mewn ymateb i gwestiwn ynghylch swyddi gweigion, dywedodd y Prif Swyddog Cyllid fod penderfyniadau cyllidebol yn seiliedig ar strwythur yr Awdurdod yn hytrach nag ar swyddi unigol. Dywedodd y Prif Weithredwr mai dim ond ychydig o swyddi gwag sy'n bodoli, a bod yr Awdurdod yn parhau i recriwtio er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau. Nododd yr aelodau bod swyddogion yn hynod ofalus wrth greu unrhyw swyddi newydd ar y strwythur.
- Nododd yr aelodau mai dim ond pan na fu'n bosibl recriwtio i swydd neu pan fo'r gwaith o natur arbenigol y cyfarwyddir ymgynghorwyr allanol. Telir costau i ddechrau o danwariant o fewn gwasanaeth, megis gweithiwr yn gweithio'n rhan amser mewn swydd amser llawn. Yna mae'r cyllid sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio i brynu'r gwasanaeth yn allanol. Os nad yw hyn yn ddigonol yna efallai y bydd angen rhagor o arian gan yr Awdurdod. Oherwydd natur cyfarwyddo ymgynghorwyr, mae costau fel arfer yn uwch na chyflogi uniongyrchol ac felly gwneir pob ymdrech i sicrhau bod cyfyngiad amser ar ddefnyddio ymgynghorwyr.
- dywedodd y Prif Weithredwr fod y sefyllfa ariannol bresennol yn wahanol i'r cyfnod cyni, a bryd hynny roedd yr Awdurdod yn canfod arbedion o wahanol gyllidebau. Bydd y diffyg hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod benderfynu beth i beidio â'i gyflawni yn y dyfodol.

### **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a'r gyllideb sylfaenol arfaethedig ar gyfer 2024/25, fel yr amlinellwyd.**

## 7. **Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2022/23**

Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn amlinellu barn y Gwasanaethau Archwilio Mewnol ar reolaethau mewnol o fewn yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd Bleddyn Rhys yr adroddiad, ar ran y Pennaeth Archwilio Mewnol, a rhoddodd grynodedb o'r gwaith a wnaed gan Archwilio Mewnol yn ystod 2022/23 a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Prif Weithredwr os bydd staff yn methu â chwblhau'r hyfforddiant ELMS gofynnol ar ôl nifer o nodiadau atgoffa, eu bod yn cael eu cloi allan o'r system nes bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau. Roedd disgwyl hefyd i'r aelodau gwblhau'r cwrs fel rhan o'u hyfforddiant gloywi bob 2 i 3 blynedd. Yn codi wedi hynny, cytunodd yr Aelodau i wella'r nifer sy'n manteisio ar ELMS a nodwyd bod cymorth technegol TG ar gael ym mhob cyfarfod.

### **PENDERFYNWYD**

1. **derbyn yr adroddiad fel “Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol” yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus am y flwyddyn ariannol 202 2/23.**
2. **derbyn y Cynllun Archwilio Gweithredol ar gyfer cyfnod cyfrifyddu 202 3/24, yn amodol ar newid mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Archwilio Mewnol, y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Cyllid, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a/neu'r Pennaeth Cyllid.**

## 8. **Arallgyfeirio Incwm**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr i roi diweddariad ar gynnydd yn dilyn derbyn adroddiadau Arallgyfeirio Incwm Archwilio Cymru.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a chadarnhaodd fod y ddau argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad unigol eisoes yn eu lle ac y byddai adroddiad ar Blas Tan y Bwlch yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Gweithgor Aelodau ym mis Ionawr 2024. Cadarnhaodd ymhellach, ers i'r adroddiad gan Archwilio Cymru ar gyfer y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru ar y cyd gael ei gyhoeddi, roedd swyddogion o Barciau Cenedlaethol Cymru wedi cyfarfod ar ddau achlysur i ystyried yr adroddiad ac, yn absenoldeb unrhyw gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru, dywedodd y Prif Weithredwr fod y gwaith hwn cael ei oedi am y tro i aros am arweiniad pellach.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- gofynnodd Aelod a oedd bwriad i sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen o Aelodau i ystyried ffordd ymlaen yn absenoldeb Canllawiau Llywodraeth Cymru. Mynegodd y Prif Weithredwr bryderon na fyddai gan yr Awdurdod y refeniw, y cyfalaf na'r staff angenrheidiol i ddechrau ar y gwaith hwn, ynghyd â'r ansicrwydd a oedd yn gyfreithiol i wneud hynny. Awgrymodd y Prif Weithredwr y gallai fod yn ddefnyddiol galw cyfarfod o'r Uwch Aelodau yn y Flwyddyn Newydd gan fod yr egwyddorion ar gyfer creu incwm eisoes wedi'u sefydlu yn y pecyn cymorth.
- Trafododd yr Aelodau a oedd gan yr Awdurdod y sgiliau a'r adnoddau i weithio'n fasnachol gyda chronfeydd preifat, gan fod hon yn set sgiliau tra gwahanol i'r hyn yr oedd staff yn gyfarwydd â nhw. Cytunodd yr Aelodau fod angen trafodaethau pellach gyda Llywodraeth Cymru i asesu'r hyn y gellir ei gyflawni gyda phartneriaid a chyda chyllid y sector preifat.
- mewn ymateb i gwestiwn, cytunodd y Prif Weithredwr fod gwersi i'w dysgu o Barciau Cenedlaethol eraill, a thra bod Archwilio Cymru wedi cynnwys dwy



enghraifft o gyfleoedd arallgyfeirio incwm yn eu hadroddiad, erys i'w weld pa mor llwyddiannus y bu'r rhain o ran y tymor hwy.

- dywedodd y Prif Weithredwr, ers drafftio'r adroddiad, fod swyddogion bellach wedi cynhyrchu offeryn gwerthuso opsiynau fel yr argymhellwyd gan Archwilio Cymru.

## **PENDERFYNWYD**

- 1. nodi cynnwys yr adroddiad.**
- 2. nodi cynnydd ar argymhellion R1 ac R2 yn Adroddiad Unigol Archwilio Cymru.**
- 3. gohirio gwaith pellach ar A1 nes bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried ac wedi mynd i'r afael â'r materion a nodwyd ar eu cyfer yn Adroddiad ar y Cyd Archwilio Cymru.**

### **9. Rhaglen Waith Gorfforaethol 2023-24**

Cyflwynwyd – Adroddiad cynnydd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol am chwarter cyntaf ac ail chwarter y flwyddyn ariannol (Ebrill – Medi) a chwarter tri os yn berthnasol.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r Rhaglen Waith Gorfforaethol a rhoddodd fanylion pellach am fformat yr adroddiad. Cynghorodd ar gywiriad i CW5.2 a ddylai ddarllen “Mae metrigau'n cael eu *monitro'n barhaus* yn y Strategaeth Gyfathrebu”.

Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

#### **Amgylcheddau Cadarn**

##### Ymateb i Heriau Newid Hinsawdd

- cadarnhaodd swyddogion fod Plas Tan y Bwlch wedi'i gynnwys yn y mesurau effeithlonrwydd ynni a adroddwyd yn AC 2.2. Hysbyswyd yr Aelodau hefyd fod Plas Tan y Bwlch yn cyfrif am 50% o ôl troed carbon yr Awdurdod.

##### Mynd i'r afael â'r Dirywiad mewn Natur

- mewn ymateb i gwestiwn, cytunodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir i drefnu gyda'r Pennaeth Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaethyddiaeth bod adroddiad ar gynnydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn y Gwanwyn, ar ôl derbyn adroddiad SoNaRR. ym mis Mawrth 2024.
- Nododd yr aelodau fod yr adroddiad Cyflwr y Parc yn darparu'r data a'r dystiolaeth amgylcheddol.

#### **Cymunedau Cadarn**

##### Cefnogi Pobl Ifanc

- Nododd yr aelodau fod y Swyddog Pobl Ifanc yn cynnal trafodaethau ar hyn o bryd gyda disgyblion ysgol ac arbenigwyr addysg ac y byddai'r Maniffesto leuenctid drafft yn barod erbyn Mawrth 2024. Cytunodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol i ofyn i'r Swyddog Pobl Ifanc drefnu cyfarfod o'r Grŵp Tasg a Gorffen Maniffesto leuenctid yn ôl y gofyn.

##### Hyrwyddo Twristiaeth Gynaliadwy i ychwanegu gwerth at gymunedau lleol

- mewn ymateb i bryder nad oedd y Grŵp Cyflawni wedi cyfarfod ers mis Ebrill 2023, esboniodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod yr Awdurdod yn dibynnu ar sefydliadau eraill, megis Trafnidiaeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol eraill i gyflawni'r cam hwn. Roedd cyfle i ddefnyddio'r adolygiadau sydd i ddod o Gynllun Eryri a Chynllun Datblygu Lleol Eryri fel ysgogiadau i yrru'r agenda yn ei blaen a hefyd, er nad oedd yr Awdurdod yn bartner llawn, bydd angen cydweithrediad llawn ar y Cyd-bwyllgor Corfforaethol Rhanbarthol ar gyfer Trafnidiaeth i symud y Cynllun Cyflawni yn ei flaen. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod yr Awdurdod wedi derbyn cadarnhad yn

ddiweddar bod gwasanaeth bws Sherpa wedi ennill Gwobr Arian y DU, sy'n dangos manteision gweithio mewn partneriaeth, a chymerodd y cyfle i ddiolch i'r Rheolwr Partneriaethau am ei gwaith. Yn codi wedi hynny, adroddodd y Prif Weithredwr ar newid yn swyddogion Trafnidiaeth Cymru ac roedd y Rheolwr Partneriaethau ar hyn o bryd yn gweithio i sefydlu perthynas waith dda gyda'r tîm newydd.

- Llongyfarchodd yr Aelodau staff yr Awdurdod ar eu cyflawniadau.

#### **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

#### **10. Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

Cyflwynwyd – Adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a'r Pennaeth Adnoddau Dynol i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022/23.

Adroddwyd – Yn absenoldeb y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer, cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad ac Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2022/23.

#### **PENDERFYNWYD croesawu'r adroddiad cynhwysfawr a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022/23 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

#### **11. Adroddiad Monitro Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2022/23**

Cyflwynwyd – Adroddiad gwybodaeth gan y Pennaeth Adnoddau Dynol i gynghori'r Aelodau ar faterion Iechyd a Diogelwch o fewn yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Adnoddau Dynol yr adroddiad a'r cefndir a gofynnodd i'r Aelodau nodi newid bychan i fformat yr adroddiad.

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad a chodwyd y materion a ganlyn:-

- nododd Aelod bryderon bod gwasanaethu tractor ym mherchnogaeth yr Awdurdod wedi cael ei esgeuluso yn sylweddol a gofynnodd am sicrwydd nad oedd hyn yn wir am beiriannau a cherbydau eraill yr Awdurdod. Sicrhaodd y Prif Weithredwr yr Aelodau mai digwyddiad unigol oedd hwn ac eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ei fod wedi deillio o newidiadau staff ym Mhlas Tan y Bwlch. Cadarnhaodd fod y tractor bellach wedi'i werthu ac nad oedd bellach yn peri risg. Sicrhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr Aelodau hefyd fod gan yr Awdurdod weithdrefnau yn eu lle, ar ffurf Aseidiadau Risg, i leihau risgiau a bod staff yn derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol.
- holodd aelod a fyddai marcio pryd fydd y gwasanaeth nesaf ar bob eitem o beirianwaith yn rhoi haen arall o ddiogelwch?
- Croesawodd yr aelodau benodiad Swyddog Iechyd a Diogelwch, a all hefyd gefnogi'r staff sy'n gweithio gartref.

#### **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.**

#### **12. Adroddiad Blynyddol y Canolfannau Croeso**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy i roi diweddariad i'r aelodau ar y cynnydd.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy'r adroddiad yn fanwl a rhoddodd drosolwg o'r flwyddyn 2023/24 hyd yma.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy fod y Canolfannau Croeso yn gweithio gyda'u cymunedau i hyrwyddo a darparu gwybodaeth am atyniadau twristiaeth lleol. Mae'r Awdurdod hefyd yn darparu mapiau, ar sail cyfanwerthu i feysydd carafanau lleol ac ati, ac atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau o Gynllun Llysgenhadon Eryri, a ddatblygwyd ar gyfer y diwydiant twristiaeth busnes lleol, sydd â thros fil o aelodau ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**13. Cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch**

Cyflwynwyd - Cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 13 Medi 2023, er gwybodaeth.

Adroddwyd - Cyflwynodd Cadeirydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch y cofnodion a dywedodd fod y Bwrdd wedi cytuno yn eu cyfarfod, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2023, y byddai adroddiad manwl gydag opsiynau yn cael ei gyflwyno i Weithgor yr Aelodau ym mis Ionawr 2024, pryd y bydd swyddogion mewn sefyllfa i roi'r holl wybodaeth angenrheidiol i'r Aelodau. Bydd adroddiad wedyn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Chwefror 2024 ar gyfer penderfyniad ffurfiol.

Trafododd yr Aelodau a'r swyddogion y canlynol:-

- mewn ymateb i gwestiwn, eglurodd y Prif Weithredwr er y byddai'n bosibl darparu dadansoddiad am rediad y ganolfan o ddydd i ddydd, roedd cost net rhedeg Plas Tan y Bwlch flwyddyn ar ôl blwyddyn yn fwy defnyddiol ar hyn o bryd.
- Sicrhawyd yr aelodau y byddai'r adroddiad i'r Gweithgor yn cynnwys data ar garbon i alluogi penderfyniad gwybodus.
- nododd Aelod tra bod cost net rhedeg Plas Tan y Bwlch yn ddefnyddiol, byddai'r busnes yn elwa o wybod pob agwedd, megis darparu dadansoddiad o ddefnyddwyr a nodi pa ran o'r busnes sy'n broffidiol ac ati.

**PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion, er gwybodaeth.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.45**

<b>CYFARFOD</b>	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
<b>DYDDIAD</b>	24 Ebrill 2024
<b>TEITL</b>	<b>EITHRIO ADRODDIAD: STRWYTHUR TÎM RHEOLI INTERIM - ADDASIAD I OPSIWN C</b>
<b>ADRODDIAD GAN</b>	Pennaeth Adnoddau Dynol
<b>PWRPAS</b>	Gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo eithrio'r adroddiad uchod

## 1. CEFNDIR

- 1.1 Rwyf wedi rhoi ystyriaeth i'r rhesymau dros eithrio'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad y cyfeirir ato uchod, ac rwy'n gwneud yr argymhellion a ganlyn i'r Awdurdod:
- 1.2 Eithriadau sy'n berthnasol i'r adroddiad:
- 1.2.1 12. Gwybodaeth sy'n berthnasol i unigolyn penodol.  
13. Gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw'r unigolyn dan sylw  
14. Gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes rhywun penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal yr wybodaeth honno).
- 1.3 Ffactorau o blaid datgelu: Dim
- 1.4 Rhagfarn a fyddai'n digwydd petai'r wybodaeth yn cael ei datgelu:
- i. Waeth sut y caiff yr adroddiad ei geirio, mae'n bosib canfod pwy yw'r unigolyn neu'r unigolion dan sylw.
  - ii. Waeth sut y caiff yr adroddiad ei geirio, bydd materion ariannol y person, personau neu'r Awdurdod sy'n destun yr adroddiad yn cael ei ddatgelu.
- 1.5 Mae fy marn i ar y prawf budd cyhoeddus fel a ganlyn:
- i. Gwasanaethir y budd cyhoeddus orau pe bai'r Awdurdod yn cadw'r wybodaeth er mwyn sicrhau y diogelir pwy yw'r unigolyn dan sylw ynghyd â'r wybodaeth ariannol.

## 2. ARGYMHELLIAD

**Bod yr Awdurdod yn cytuno i eithrio'r adroddiad "Strwythur Tîm Rheoli Interim - Addasiad i Opsiwn C"**